



**BOUNDARY COMMISSION
FOR WALES
COMISIWN FFINIAU I GYMRU**

**THIRD PERIODICAL REPORT
TRYDYDD ADRODDIAD CYFNODOL**

*Presented to Parliament by the Secretary of State for the Home
Department by Command of Her Majesty.
February 1983*

*Cyflwynwyd i'r Senedd gan Ysgrifennydd Gwladol
yr Adran Gartref drwy Orchymyn Ei Mawrhydi.
Chwefror 1983*

**LONDON
HER MAJESTY'S STATIONERY OFFICE
£15.30 NET**

Cmnd 8798

Cmnd 8798

CYFANSODDIAD Y COMISIWN

YN UNOL Â Rhan I yr Atodiad Cyntaf i House of Commons (Redistribution of Seats) Act 1949, fel y'i diwygiwyd gan baragraff 1 yr Atodiad i House of Commons (Redistribution of Seats) Act 1958, fe gyfansoddwyd y Comisiwn fel a ganlyn:

Aelod Ex-officio

LLEFARYDD Tŷ'R CYFFREDIN, *Cadeirydd*

Tri Aelod arall

YR ANRHYDEDDUS MR. USTUS TALBOT, *Dirprwy Gadeirydd*
wedi'i benodi gan yr Arglwydd Ganghellor

MR. JOHN R. LONG, LL.B. D.P.A.
wedi'i benodi gan Ysgrifennydd Gwladol
yr Adran Gartref

MR. MURRAY A. McLAGGAN, Y.H. D.L. M.A.
wedi'i benodi gan Ysgrifennydd Gwladol
Cymru

Aseswyr

COFRESTRYDD CYFFREDINOL CYMRU A LLOEGR,
MR. A. R. THATCHER, C.B. M.A.

CYFARWYDDWR CYFFREDINOL YR AROLWG ORDNANS,
MR. W. P. SMITH, C.B. O.B.E. M.A. F.R.I.C.S.

Cyd-Ysgrifenyddion

Mr. G. P. Barnes

Miss M. D. Cook (tan 2 Ebrill, 1981)

Mr. A. N. Pickersgill (o 3ydd Ebrill, 1981)

wedi'u penodi gan Ysgrifennydd Gwladol yr Adran Gartref



NOTE ON MAPS

The maps included with this report have been produced by Ordnance Survey and accompany the county to which they relate at a scale appropriate to the area.

Administrative boundaries and names are shown in red with the recommended parliamentary constituency boundaries and names in blue.

The existing constituency boundaries and names are shown in green on a separate overlay to each map.

C Y N N W Y S

	<i>Tudalen</i>
RHAGARWEINIAD	2
AMSERIAD YR AROLWG CYFFREDINOL	2
DEFNYDDIO'R RHEOLAU	4
EGWYDDORION CYFFREDINOL	6
TREFN WEITHREDU	6
YMCHWILIADAU LLEOL	8
DOSBARTHU SEDDI	10
YR ARGYMHELLION	10
Clwyd	12
Dyfed	18
Gwynedd	22
Morgannwg Ganol	30
De Morgannwg	36
Gorllewin Morgannwg	42
Gwent a Phowys	46
EFFEITHIAU'R ARGYMHELLION	54
Nifer yr Etholaethau	54
Maint yr Etholaethau	54
Perthynas ag Etholaethau Presennol	54
Perthynas â Dosbarthau	56
CYFFREDINOL	56
ATODLEN A Rheolau ar gyfer Ailddosbarthu Seddi	57
„ B Yr etholaethau presennol a'r ffordd y'u rhennir rhwng siroedd a dosbarthau	61
„ C Rhestr yr etholaethau presennol yng ngorchymyn 1981 mewn cysylltiad â niferoedd etholwyr	65
„ D Testun y llyfryn esboniadol	68
„ E Rhestr y Comisiynwyr cynorthwyol a gynhaliodd ymchwiliadau lleol	74
„ F Rhestr o siroedd—niferoedd eu hetholwyr, eu hawl ddamcaniaethol o ran cynrychiolwyr, a nifer y seddi a neilltuwyd iddynt—ynghyd â nifer yr etholwyr ymhob dosbarth	75
„ G Rhestr yr etholaethau a argymhellwyd yng ngorchymyn 1981 mewn cysylltiad â niferoedd etholwyr	79
„ H Yr etholaethau a argymhellir	81
(a) Mynegai	81
(b) Cyfansoddiad a niferoedd yr etholwyr ym 1981 a 1982	83
„ I Rhestri o wardiau dosbarth a'r ardaloedd a gynhwysant (dosbarthau a rannwyd rhwng etholaethau ond nad ailwardiwyd eto)	100

NODYN AR Y MAPIAU

Cynhyrchwyd y mapiau a gynhwysir yn yr adroddiad hwn gan yr Arolwg Ordnans a chyfeiriant at y sir berthnasol ar raddfa sy'n addas i'r sir honno.

Dangosir ffiniau ac enwau'r unedau gweinyddol mewn coch, gyda ffiniau ac enwau'r etholaethau seneddol arfaethedig mewn glas.

Dangosir ffiniau ac enwau'r etholaethau presennol mewn gwyrdd ar drosgaen ar wahân gyda phob map.

Comisiwn Ffiniau i Gymru

Adroddiad ar y Trydydd Arolwg Cyffredinol o Etholaethau Seneddol o dan the House of Commons (Redistribution of Seats) Acts, 1949 to 1979.

XXXXXXXXXXXXXXXXXXXX

AT Y GWIR ANRHYDEDDUS WILLIAM WHITELAW, C.H., M.C., A.S.

Ysgrifennydd Gwladol Ei Mawrhydi ar gyfer yr Adran Gartref

Rhagarweiniad

1. Yr ydym ni, Comisiwn Ffiniau i Gymru, wedi'n sefydlu a'n cyfansoddi gan the House of Commons (Redistribution of Seats) Act, 1949 to 1979 "er mwyn adolygu'n gyson ddosbarthiad y seddi mewn etholiadau seneddol". Yn unol â'r Deddfau hyn, mae'n ofynnol i ni yn arbennig gyflwyno i'r Ysgrifennydd Gwladol, nid llai na deng mlynedd na mwy na phymtheng mlynedd ar ôl dyddiad cyflwyno'n hadroddiad cyfnodol blaenorol, adroddiad yn dangos yr etholaethau yr argymhellwn eu sefydlu yng Nghymru o dan y Rheolau ar gyfer Ailddosbarthu Seddi. Mae Rheolau Ail Atodiad Deddf 1949 wedi'u nodi yn Atodlen A fel y'u diwygiwyd gan Ddeddf 1958, Local Government Act 1972 ac, yn achos Rheol 1 sy'n effeithio ar Ogledd Iwerddon, gan House of Commons (Redistribution of Seats) Act 1979. Mae'r adroddiad hwn yn cyfeirio wedi hyn at y rheolau diwygiedig dan sylw fel "y Rheolau".

Amseriad yr Arolwg Cyffredinol

2. Cafodd yr ail adroddiad cyfnodol ar etholaethau Cymru ei gyflwyno i'r Ysgrifennydd Gwladol ym mis Mai 1969⁽ⁱ⁾. Yr oedd yn rhaid i ni, felly, gyflwyno'r trydydd adroddiad cyfnodol ar Gymru rywbryd rhwng Mai 1979 a Mai 1984.

3. Yn sgîl ad-drefnu llywodraeth leol ym 1974, yr oedd nifer fawr o enghreifftiau lle nad oedd yr etholaethau'n cydweddu mwyach â ffiniau'r awdurdodau lleol, ac yr oedd naw⁽ⁱⁱ⁾ o'r 36 etholaeth a fodolai ar y pryd yn croesi'r ffiniau sirol newydd. Ceir rhestr o'r etholaethau presennol a'r ffordd y'u rhennir rhwng siroedd a dosbarthau yn Atodlen B. Yn ogystal, yr oedd gofyn i Gomisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol i Gymru gynnal arolwg cymdeithas arbennig ac, ar ôl hwnnw, arolwg o drefniadau etholiadol pob un o'r dosbarthau. Ymddangosai y gallai canlyniadau'r arolygon hyn greu newidiadau nid yn unig yn ffiniau'r wardiau cymdeithas a dosbarth ond hefyd yn ffiniau'r dosbarthau a'r siroedd eu hunain. Yn naturiol, dymunai'n rhagflaenwyr, os oedd modd yn y byd, ystyried y newidiadau hyn wrth lunio'u hargymhellion. Pan ddechreuodd Comisiwn Ffiniau i Loegr ar eu harolwg cyffredinol hwy o etholaethau seneddol ym 1976, ystyriodd y Comisiwn Cymreig a ddylent ddilyn yr un amserlen ond daethant i'r casgliad yn hwyrffrydig na fuasai'r Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol wedi gwneud digon o gynnydd gyda'u harolygon i ganiatáu dechrau ar arolwg o etholaethau Cymru mewn ffordd ystyrlon ym 1976: ac o bryd i bryd fe ailedrychwyd ar y penderfyniad hwn a'i gadarnhau.

4. Ym 1978, ehangwyd dyletswyddau'r Comisiwn gan yr European Assembly Elections Act a chynhaliwyd ganddynt eu harolwg cyntaf o etholaethau Senedd Ewrop. Cyflwynwyd adroddiad i'r Ysgrifennydd Gwladol ym mis Medi 1978, gydag argymhellion ar gyfer y pedair etholaeth a neilltuwyd i Gymru, ac fe gymeradwywyd y rhain a daethant i rym mewn pryd i'r etholiadau uniongyrchol cyntaf i Senedd Ewrop ym mis Mehefin 1979.

5. Erbyn diwedd 1980, yr oedd adroddiadau a gynhwysai gynigion terfynol y Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol ar gyfer cymdeithasau wedi'u cyflwyno yn hanes 22 o 37 dosbarth Cymru ac, er i Ysgrifennydd Gwladol Cymru gyhoeddi'i benderfyniadau terfynol ar nifer o achosion, ni wnaethid unrhyw Orchmynion yn gweithredu'i benderfyniadau. Yr oedd arnom eisiau gwybod nid yn unig ffiniau newydd y cymdeithasau, y dosbarthau a'r siroedd ond hefyd ffiniau newydd y wardiau o fewn y dosbarthau. Oherwydd y cynnydd araf a wneid gydag arolygon y cymdeithasau a'r dosbarthau, fe'n darbwyllwyd na allem gwrdd â'r terfyn amser a bennwyd yn statudol i ni, sef Mai 1984, pe baem yn aros i'r wardiau dosbarth gael eu sefydlu'n ffurfiol. Penderfynwyd, felly, y dylai'n harolwg cyffredinol o etholaethau fynd rhagddo ar sail y wardiau a sefydlwyd ym 1973 adeg ad-drefnu llywodraeth leol, er y gobeithiem y byddai'n bosibl adlewyrchu yn ystod ein harolwg rai o'r Gorchmynion a wnaethpwyd ym 1981 a 1982 ac a effeithiai ar ffiniau wardiau a dosbarthau, yn ogystal â ffiniau siroedd.

(i) Yn unol â hyn, diwygiwyd yr etholaethau gan The Parliamentary Constituencies (Wales) Order 1970 (S I 1970 No 1675).

(ii) Cynyddodd hyn bellach i 12 o ganlyniad i Orchmynion yn sgîl argymhellion Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol i Gymru.

6. Gan hynny gwnaethom gyhoeddi ar 16eg Chwefror, 1981 ein bwriad i gynnal arolwg cyffredinol o etholaethau seneddol ac fe roes yr Ysgrifennydd Gwladol wybod i Dŷ'r Cyffredin am hyn mewn ateb i Gwestiwn ar 25ain Chwefror, 1981. Cyhoeddwyd yr hysbysiad statudol am fwriad y Comisiwn yn y *London Gazette* ar 23ain Chwefror, 1981.

Defnyddio'r Rheolau

7. Yr oedd gofyn i ni seilio'n hargymhellion ar niferoedd yr etholwyr ar restr 1981. Penna Rheol 7 y dylai dyddiad y cyhoeddi yn y *London Gazette* fod yr un un â dyddiad y rhifo ac y dylem ddefnyddio niferoedd yr etholwyr oedd ar y rhestr ar ddyddiad y rhifo hwnnw.

8. Darpara Rheol 1 na ddylai fod llai na 35 etholaeth yng Nghymru, a 36 a fu byth oddi ar etholiad cyffredinol 1950. Penderfynwyd nad oedd unrhyw reswm dros ostwng y nifer presennol.

9. Cafodd ad-drefnu llywodraeth leol effaith enfawr ar un o'r meini prawf y mae'n rhaid i ni eu dilyn. Mae nifer o'r cyn-siroedd bellach yn ddsbarthau, tra bo Rheol 4(1) yn pennu y dylem argymhell, mor bell ag sy'n ymarferol, etholaethau a gynhwysir o fewn ffiniau sirol. Fel y mae pethau, felly, nid oes hawl mwyach gan lawer o gyn-siroedd Cymru i gael eu hystyried ar wahân lle y mae dosbarthu etholaethau yn y cwestiwn. Yn sgîl dileu'r hawl hon, ein prif flaenoriaeth bellach wrth drafod ardaloedd y cyn-siroedd hyn yw sicrhau y cânt eu cynrychioli'n deg o'u cymharu â niferoedd yr etholwyr mewn ardaloedd eraill, tra mewn arolygon blaenorol y bu cyfiawnhad cryf dros gadw ffiniau'r etholaethau o fewn ffiniau'r siroedd dan sylw er bod hynny'n creu anghysondeb mawr. Ym Morgannwg, problem i'r gwrthwyneb a grewyd trwy rannu un gyn-sir yn dair. Fodd bynnag, yn y ddau achos yr ydym wedi cadw mewn cof fod gennym ryddid i ystyried ffactorau eraill.


10. At ei gilydd, mae niferoedd yr etholwyr yn y 37 dosbarth newydd yng Nghymru yn uwch o lawer nag yn yr hen ddsbarthau. Cafodd darpariaeth arall a gynhwysid gynt yn Rheol 4(1) ac a'i gwnâi'n ofynnol i ni osgoi, mor bell ag a fyddai'n ymarferol, argymhell-etholaethau a groesai ffiniau ddsbarthau, ei diddymu gan Local Government Act 1972. Gwnaeth Gweinidog Gwladol yr Adran Gartref ddatganiad yn ystod y Pwyllgor Sefydlog ar y Mesur Llywodraeth Leol yn egluro'r rhesymau dros ddiddymu'r ddarpariaeth ac yn cytuno i gynghori'r Comisiwn i ystyried ffiniau ddsbarthau lle bynnag y byddai hynny'n bosibl. Cyflewyd y cyngor hwnnw i ni mewn llythyr oddi wrth y Swyddfa Gartref, dyddiedig 11eg Mehefin, 1974, ac fe'i cadwyd mewn cof gennym erioed wrth lunio'n hargymhellion, yn enwedig yng ngoleuni newid perthnasedd Rheol 4 i ardaloedd a oedd gynt yn siroedd ac sydd bellach yn ddsbarthau (paragraff 9 uchod).


11. Nid yn unig y newidiwyd y meini prawf ar gyfer ein harolwg ni o'u cymharu â'r rhai a ddilynwyd gan ein rhagflaenywyr yn ystod yr ail arolwg cyfnodol ac y crewyd patrwm gwahanol o lywodraeth leol, ond hefyd yr oedd yr anghysondeb rhwng niferoedd yr etholwyr o fewn yr etholaethau wedi tyfu'n sylweddol. Mae Rheol 5 yn ei gwneud yn ofynnol i ni argymhell etholaethau sydd mor agos at y cwota etholiadol ag sy'n ymarferol. Darpara Rheol 7 y dylid pennu'r cwota etholiadol trwy rannu nifer yr etholwyr yng Nghymru â nifer bresennol yr etholaethau ar y dyddiad rhifo (2,115,093 o etholwyr wedi'u rhannu â 36 o etholaethau) a'r ffigur, felly, yw 58,753. Pan ddechreusom yr arolwg hwn, yr oedd niferoedd yr etholwyr yn yr etholaethau a fodolai ar y pryd yn amrywio o 85,273 yn etholaeth Trefynwy i 27,619 yn etholaeth Meirionnydd, h.y. yr oedd ym Meirionnydd lai na thraean nifer yr etholwyr yn Nhrefynwy. Yr oedd un ar hugain o'r etholaethau'n gwahaniaethu o'r cwota etholiadol o fwy na 15%. Ceir rhestr o niferoedd yr etholwyr yn yr etholaethau presennol yn Atodlen C.

12. Yr oedd llawer o'r etholaethau wedi aros yn ddigyfnewid ers amser maith (13 ers tros 60 mlynedd) ac yr oedd yn anochel y byddai'n rhaid gwneud nifer fawr o newidiadau i'r etholaethau presennol yn ystod yr arolwg hwn. Mae'n ofynnol i ni roi sylw, cyn belled ag y gallwn yn rhesymol, i'r anghyfleustra a achosir gan newidiadau yn yr etholaethau (ar wahân i'r rhai y mae eu hangen er mwyn adlewyrchu ffiniau sirol) ac i unrhyw gysylltiadau lleol a gâi eu torri gan newidiadau o'r fath—adran 2(2) Deddf 1958. Yr oedd yn amlwg, fodd bynnag, y byddai'n rhaid i'n cynigion ymyrryd â hen gysylltiadau traddodiadol mewn rhai ardaloedd ac, er ein bod yn cydnabod y byddent yn peri aflonyddwch, credem y byddem yn methu gwneud ein dyletswydd pe bai'n hargymhellion yn parhau anghydbwysedd presennol y gynrychiolaeth.

13. Caniateir i ni rywfaint o ryddid wrth ddefnyddio'r prif reolau. Lle y byddai fel arall anghyfartaledd mawr yn niferoedd yr etholwyr mewn etholaethau cyfagos neu wyro sylweddol oddi wrth y cwota etholiadol, gallwn benderfynu argymhell etholaethau sy'n croesi ffiniau sirol. Hefyd, lle y bo ystyriaethau daearyddol arbennig, gallwn ddewis peidio â dilyn yn fanwl y gofyniad sy'n pennu y dylid argymhell niferoedd cyfartal o etholwyr a'r gofyniad na ddylid croesi ffiniau sirol. Fodd bynnag, dechreusom ar ein tasg gan fwrriadu peidio ag argymhell etholaethau a gynhwysai rannau o ragor nag un sir ond fel dewis olaf.

14. Mae mwyafrif yr etholwyr yn byw yn y stribedi gyda glannau'r môr yn y gogledd a'r de, gan adael ardaloedd mawr, prin eu poblogaeth yng nghanolbarth a gorllewin Cymru. Er bod dyfodiad diwydiannau





arbennig wedi chwarae rhan bwysig yn y patrwm anheddu a ddatblygodd, bu'r nodweddion daearyddol, a'r cysylltiadau a dyfodd yn sgîl hynny, yn ystyriaeth hollbwysig yn y dosbarthiad hwn. Cydnabuom o'r cychwyn y gallent haeddu triniaeth eithriadol ac fe roesom ystyriaeth neilltuol iddynt yn ein holl bwyso a mesur.

15. Mae'n ofynnol i ni argymhell un enw ar gyfer pob etholaeth. Gan y dewiswyd enwau newydd, a'r rheiny'n enwau Cymraeg, ar gyfer llawer o'r 37 dosbarth newydd, cawsom anogaeth i'w defnyddio lle bynnag yr oedd hynny'n briodol. Ond ni ellid ar unrhyw gyfrif ystyried cynnig enwau Saesneg a Chymraeg ar yr un etholaeth.

16. Rhaid i ni hefyd bennu'r etholaethau yn rhai bwrdeistrefol neu sirol. Y teitlau hyn, fel arfer, sy'n penderfynu pwy sy'n gweithredu fel swyddog canlyniadau mewn etholiad seneddol, gan effeithio hefyd ar y terfyn uchaf ar gyfer treuliau etholiadol yr ymgeiswyr. Mewn etholaethau sirol mae'r terfyn ychydig yn uwch nag mewn etholaethau bwrdeistrefol. Dim ond yn yr ardaloedd trefol, dwysaf eu poblogaeth y pennwyd gennym etholaethau bwrdeistrefol.

Egwyddorion Cyffredinol

17. Mae niferoedd yr etholwyr yn y rhan fwyaf o ddosbarthau naill ai'n rhy fawr neu'n rhy fach iddynt ffurfio etholaethau, a lle y bônt o'r maint cywir mae'n rhaid o hyd eu rhannu rhwng etholaethau weithiau er mwyn sicrhau niferoedd rhesymol debyg o etholwyr yn yr etholaethau cyfagos. Mae'n amlwg ei bod yn peri llai o ddrwsch i etholwyr a phawb sy'n ymwneud ag etholiadau os yw'r rhaniadau hyn yn dwyn perthynas ag ardaloedd adnabyddus eraill a ddiffiniwyd yn unol â'r gyfraith. Bydd y rhan fwyaf o bleidiau gwleidyddol yn defnyddio wardiau dosbarth fel sail i'w gweithgarwch ac fel arfer bydd y wardiau hyn yn rhoi syniad da am ardaloedd sydd â'r un diddordebau. Teimlem y byddai unrhyw gamre i rannu wardiau dosbarth yn ymyrryd â chysylltiadau lleol ac, felly, lle'r oedd angen rhannu dosbarth rhwng etholaethau, y dylai ffin yr etholaethau ddilyn ffiniau'r wardiau yn hytrach na'u gwahanu. Oherwydd hyn, y ward ddsbarth a ddaeth yn uned sylfaenol ar gyfer yr etholaethau yr oeddem i'w hargymhell. Lle y gwnaethid Gorchmynion i ddiwygio'r wardiau o fewn unrhyw ddsbarth, byddid yn defnyddio'r ffiniau a'r enwau newydd, ond ymhobman arall byddai'n rhaid seilio'n hargymhellion ar yr 'hen' wardiau a adwaenid yn ôl y rhifau a roddwyd iddynt yn lle enwau mewn pryd i etholiadau 1973 cyn ad-drefnu llywodraeth leol. Ceir yn Atodlen I restr o rifau'r wardiau o fewn pob dosbarth, gan nodi hefyd diriogaeth pob ward, ar gyfer y dosbarthau hynny a rannwyd rhwng etholaethau ac na ddiwygiwyd mohonynt mewn pryd i'n harolwg.

18. Penderfynwyd dilyn yr arfer draddodiadol wrth beidio â gwahodd awgrymiadau oddi wrth gyrff a mudiadau allanol gan ei bod yn well, yn ein tyb ni, gyflwyno argymhellion dros dro o safle diduedd ac annibynnol. Am y rheswm hwn, anwybyddwyd yn ystod y rhan yma o'r broses unrhyw awgrymiadau na wahoddwyd—fel arall buasid wedi rhoi i'r rhai a'u cyflwynodd gyfle na roddwyd i'r lleill a gydymffurfiodd â'n dulliau gweithredu.

19. Gan fod hwn i fod yn ailddosbarthiad o bwys a chan fod ein harolygon yn anfynych, paratoesom lyfryn yn Gymraeg ac yn Saesneg yn ceisio disgrifio mewn ffordd seml gamre cyffredinol yr arolwg a'r adegau y gallai'r rhai a ddymunai gyflwyno sylwadau ar y cynigion wneud hynny. Gwelir y testun yn Atodlen D. Anfonwyd copïau at bencadlysoedd y pum plaid gwleidyddol a gynrychiolid yn Nhŷ'r Cyffredin, at lyfrgelloedd Tŷ'r Cyffredin a Thŷ'r Arglwyddi, at bob Aelod Seneddol ac at bob cyngor sir a dosbarth, yn ogystal ag at seffolegwyr ac unrhyw rai eraill a ofynnodd amdanynt. Yr oedd copïau ar gael hefyd ymhob ymchwiliad lleol.

20. Dilynasom arfer ein rhagflaenwyr trwy ymgynghori â chynrychiolwyr y pleidiau gwleidyddol ynglŷn â'n harolwg. Ym mis Medi 1981, ar ôl cyhoeddi'n hargymhellion dros dro, cawsom gyfarfod hir a diddorol â chynrychiolwyr yr holl bleidiau a gynrychiolid yn Nhŷ'r Cyffredin. Yn ein system etholiadol, rhaid i gysondeb rhesymol o ran niferoedd yr etholwyr fod yn ystyriaeth o bwys a gwnaethom nodi i ni ddechrau trwy barchu'r maen prawf hwnnw'n weddol fanwl. Pwysleisiwyd, fodd bynnag, ein bod yn barod i fod yn ystwyth ac y byddem yn croesawu awgrymiadau adeiladol oddi wrth fudiadau a phersonau lleol, os cydymffurfient, wrth gwrs, â'r Rheolau a'n cyfyngai ninnau. Ni chawsom unrhyw le i amau eu hymateb cyffredinol i'n hargymhellion a bu'r cyfarfod o gymorth mawr i ni wrth wneud ein penderfyniadau terfynol.

Trefn Weithredu

21. Rhoes y Cofrestrwyd Cyffredinol i ni fanylion am niferoedd yr etholwyr o dan yr awdurdodau lleol a'r etholaethau presennol, ynghyd â gwybodaeth ynglŷn â nifer a dosbarthiad y Cymry Cymraeg trwy Gymru. Paratoes Cyfarwyddwr Cyffredinol yr Arolwg Ordnans fapiau ar raddfeydd priodol yn dangos ffiniau'r etholaethau a'r awdurdodau lleol, ynghyd â ffiniau presennol neu ddiwygiedig y wardiau dosbarth.

22. Hysbysebwyd ein hargymhellion dros dro mewn papurau newydd a gylchredai'n lleol ymhob etholaeth yr effeithid arni, gyda rhestr o'r manau o fewn pob etholaeth lle y cedwid manylion am y cynigion i gael eu harchwilio gan y cyhoedd. Ceisiasom sicrhau cyhoedduswydd eang er mwyn cyrraedd cymaint o etholwyr â phosibl ac fe seiliwyd ein dewis o bapurau newydd ar gynghorion a roddwyd i ni gan y cynghorau dosbarth. Rhoddwyd ein hysbysiadau fel arfer yn swyddfeydd cynghorau ac weithiau mewn llyfrgelloedd. Er nad yw'n ofynnol i ni wneud hynny, gwnaethom ddarparu mapiau, a gynhyrchwyd i ni gan yr Arolwg Ordnans, i ddangos y cynigion ac fe ofynnwyd hefyd i'r cynghorau ddarparu mapiau a nodai ffiniau'r wardiau fel y bodolent ar y pryd er mwyn helpu'r etholwyr i bwysu a mesur y gwahanol ddewisiadau. Cyhoeddwyd ein hysbysiadau yn Gymraeg ac yn Saesneg.

23. Anfonwyd copiâu o'r hysbysiadau at y cynghorau sir, at bencadlysoedd y prif bleidiau gwleidyddol, at lyfrgell Tŷ'r Cyffredin ac at Aelodau Seneddol unigol. Trwy Adran Hysbysrwydd y Swyddfa Gymreig a Changen Cysylltiadau Cyhoeddus yr Adran Gartref, gwnaethom drefnu yn ogystal i bapurau cenedlaethol a lleol eraill, ynghyd â chyrrff newyddion teledu, gael gwybod am ein cynigion.

24. Yr oedd yn rhaid i'r hysbysiadau a rôl gyhoedduswydd i'n hargymhellion nodi y câi unrhyw sylwadau a gyflwynid i ni o fewn un mis ar ôl y dyddiad cyhoeddi eu cymryd i ystyriaeth. Fodd bynnag, lle y bu'n bosibl rhoesom ystyriaeth yr un fath i sylwadau a gyflwynwyd i ni ar ôl y cyfnod statudol. Derbyniwyd sylwadau ysgrifenedig ynglŷn â'n cynigion o 650 o ffynonellau yn ystod yr arolwg.

Ymchwiliadau Lleol

25. Mae'n ofynnol i ni gynnal ymchwiliadau lleol pan wrthwynebir ein cynigion cyhoeddedig gan awdurdod lleol sydd â diddordeb, hynny yw cyngor dosbarth neu sir, neu gan gorff o 100 neu ragor o etholwyr. O ganlyniad i sylwadau o'r fath, yr ydym wedi cynnal saith ymchwiliad lleol—un ohonynt wedi'i rannu rhwng safleoedd ym Mhowys a Gwent. Nid oes raid i ni gynnal ail ymchwiliad lleol ar gyfer unrhyw ardal a daethom i'r casgliad nad oedd cyfiawnhad dros un felly.

26. Yr oedd yr ymchwiliadau'n agored i unrhyw berson neu gynrychiolydd a ddymunai fynegi barn ac ni chyfyngid mohonynt i rai a wnaethai sylwadau ysgrifenedig.

27. Gofynsom i'r Ysgrifennydd Gwladol benodi panel o Gomisiynwyr cynorthwyol y gallem ddewis o'u plith i gynnal ymchwiliadau lleol ar ein rhan. Bu'r adroddiadau annibynnol a luniwyd ganddynt ar yr ymchwiliadau lleol yn werthfawr dros ben pan ddaethom i ystyried y gwahanol bosibiliadau cyn gwneud ein cynigion terfynol. Ceir yn Atodlen E restr o'r Comisiynwyr cynorthwyol a gynhaliodd ymchwiliadau drosom.

28. Buom yn ofalus i ddewis Comisiynwyr cynorthwyol a fedrai'r Gymraeg i gynnal yr ymchwiliadau lleol hynny lle'r oedd yr iaith Gymraeg yn debyg o gael ei defnyddio.

Penodwyd cyfieithwyr ar y pryd i gynorthwyo ymhob ymchwiliad, fodd bynnag, fel y gallai'r rhai a ddymunai gyflwyno'u sylwadau trwy gyfrwng y Gymraeg wneud hynny. Yn y rhan fwyaf o ymchwiliadau, cymharol ychydig o sylwadau a wnaed yn Gymraeg a, beth bynnag, yr oedd pawb, cyn belled ag y rhoddwyd ar ddeall i ni, yn deall Saesneg. Felly, dim ond o'r Gymraeg i'r Saesneg y bu'r cyfieithwyr yn gweithio. Yn ymchwiliad Gwynedd, lle y daeth nifer dda o bobl ynghyd, yr oedd mwyafrif y presenolion yn ddwyieithog a chyflwynwyd rhan fwyaf y sylwadau yn Gymraeg. Cafodd y cyfleusterau ardderchog a ddarparwyd gan Lys y Goron yng Nghaernarfon ar gyfer cyfieithu ar y pryd eu defnyddio i drosi o'r Gymraeg i'r Saesneg ac o'r Saesneg i'r Gymraeg.

Carem gofnodi'n diolchgarwch i'r cyfieithwyr a gynorthwyodd mor effeithiol yn yr ymchwiliadau a hynny weithiau o dan amodau anodd.

29. Cyhoeddwyd hysbysiadau'n rhoi cyhoedduswydd i'r ymchwiliadau cyhoeddus yn yr un modd â hysbysiadau ynglŷn â'n hargymhellion dros dro. Cafodd copiâu o'r holl sylwadau a dderbyniwyd gennym mewn cysylltiad â'r argymhellion hyn eu cadw i'w harchwilio gan y cyhoedd yn y cyfeiriadau a restrwyd yn yr hysbysiadau cyn yr ymchwiliad lleol. Un o'r anawsterau a gawsom oedd i gyfran led helaeth o'r rhai a gyflwynodd sylwadau wrthwynebu'n cynigion yn unig er mwyn sicrhau y cynhelid ymchwiliad lleol, heb nodi pam. Gwnaethom gytuno i roi ar gadw'n lleol fanylion am wrthwynebiadau neu wrthgynigion a gyflwynid hyd at bythefnos cyn unrhyw ymchwiliad ac, fel mater o ffaith, gwnaethom yn debyg gyda nifer a gyflwynwyd yn ddiweddarach na hynny. Achoswyd anawsterau weithiau oherwydd i rai sylwadau gyrraedd yn hwyr a methiant y cyflwynwyr i gyflwyno gwrthgynigion, ond rhoddodd y Comisiynwyr cynorthwyol gymaint o ryddid ag a oedd yn ymarferol i'r bobl a ddaeth i'r ymchwiliadau.

30. Ni chawsom ni mo'n cynrychioli yn yr ymchwiliadau gan ein bod yn nes ymlaen i benderfynu p'un ai i dderbyn neu i wrthod yr argymhellion a gyflwynai'r Comisiynwyr cynorthwyol i ni. Fodd bynnag, bu un o'n hysgrifenyddion yn bresennol fel sylwedydd ymhob un ohonynt a gwnaethom ddosbarthu datganiad cyn pob ymchwiliad, yn nodi'n fras y meini prawf y bu'n rhaid i ni eu dilyn a'r ffactorau a gymerwyd i ystyriaeth gennym; darllenwyd y datganiadau hyn gan y Comisiynwyr cynorthwyol ar ddechrau'r ymchwiliadau. Dibynnwyd wedyn ar y presenolion, wedi'u symbylu gan y Comisiynwyr cynorthwyol, i drafod yr holl ffactorau perthnasol.

31. Sicrhawyd gwasanaeth cofnodwyr adroddiadau gair am air i gynhyrchu trawsgrïptiau o drafodion pob ymchwiliad. Yr oedd y trawsgrïpt ar gael i unrhyw un a wnâi gais amdano ar ôl i ni ystyried adroddiad y Comisiynydd cynorthwyol a thynnu ein casgliadau.

Bu tasg y cofnodwyr adroddiadau gair am air yn neilltuol o anodd. Byddai'r sylwadau'n newid yn ôl ac ymlaen rhwng fersiynau Cymraeg a Saesneg o enwau lleoedd, ac mewn rhai ymchwiliadau rhwng y ddwy iaith. Nodwn yma ein diolchgarwch i'r cofnodwyr am eu heffeithiolrwydd wrth gynhyrchu hadroddiadau o dan amgylchiadau mor anodd.

32. Wrth dderbyn adroddiad y Comisiynydd cynorthwyol ar ymchwiliad lleol, rhoesom ystyriaeth i'w argymhellion yng ngoleuni'r holl sylwadau a gyflwynwyd i ni yn ogystal ag iddo ef yn yr ymchwiliad. Os penderfynwyd diwygio'n hargymhellion mewn unrhyw fodd, fe gyhoeddwyd y cynigion newydd a gwahoddwyd sylwadau, gan ddilyn yr un drefn ag o'r blaen. Ar ôl i ni wneud ein penderfyniad, anfonwyd copïau o adroddiad y Comisiynydd cynorthwyol fel arfer i'r rhai a gyflwynodd sylwadau i ni. Yr un eithriad oedd ar ôl yr ymchwiliad i mewn i'r cynigion ar gyfer Gwent a Phowys; nid oedd yn syndod bod adroddiad y Comisiynydd cynorthwyol yn hir a thrwchus iawn ac, o dan yr amgylchiadau hyn, rhoesom gopïau ar gadw o fewn pob un o'r etholaethau ac anfon copïau at y cynghorau sir, pencadlysoedd y pleidiau gwleidyddol ac ymgeiswyr unigol yn unig.

Ar ôl hynny, cyhoeddwyd addasiadau i'r cynigion mewn rhai siroedd ac unwaith eto gwnaethom ddilyn yr un drefn statudol hon.

Dosbarthu Seddi

33. Yn ystod ein hystyriaeth ragarweiniol, amcangyfrifwyd nifer y seddi yr oedd gan bob un o'r siroedd hawl ddamcaniaethol⁽ⁱ⁾ iddynt ar sail 36 sedd i gyd—gweler Atodlen F. Nid yr un ffigur byth oedd nifer y dosbarthau mewn sir a nifer y seddi yr oedd gan y sir honno hawl iddynt a, beth bynnag, anfynych yr oedd mewn dosbarthau y nifer briodol o etholwyr iddynt ffurfio etholaethau ar wahân.

34. Cymerwyd yr hawl ddamcaniaethol hon a'i throi i'r ffigur gron agosaf; ag un eithriad, rhoddodd hyn gyfartaledd o ran nifer yr etholwyr a oedd yn agos at y cwota etholiadol. Yr eithriad oedd Powys a rôl broblem arbennig. Yn ddamcaniaethol, yr oedd gan Bowys hawl i 1.4 sedd ac felly wynebem yr anhawster o orfod dewis naill ai un etholaeth â thros 84,000 o etholwyr neu ddwy etholaeth â chyfartaledd o ryw 42,000 o etholwyr. Ein penderfyniad cyntaf oedd na allem gyfiawnhau neilltuo dwy etholaeth ac y byddai pennu un yn afresymol yn wyneb maint y sir. Yn y gorffennol, ystyriwyd uno Meirionnydd a Threfaldwyn i ffurfio un etholaeth. Daethom i'r casgliad na ddylem gynnig trefniadau o'r fath oherwydd y rhwystrau ffisegol rhwng yr ardaloedd dan sylw. Ar ôl astudio'r dewisiadau eraill, casglwyd bod llawer llai o rwystrau yn ne'r sir yn erbyn uno â Gwent.

Wrth ystyried posibilrwydd yr uno hwn, cadwem mewn cof hefyd fod Gwent â hawl ddamcaniaethol i 5.6 sedd; felly, pe cymerid Gwent a Phowys gyda'i gilydd, byddai ganddynt hawl i 7.0 sedd a byddai niferoedd yr etholwyr ar gyfer y seddi hyn yn llawer nes at y cwota etholiadol. O gofio'r rhyddid a ganiateir i ni o dan y Rheolau (y soniwyd amdano ym mharagraff 13), penderfynwyd bryd hynny gyfuno ardaloedd Gwent a Phowys er mwyn dosbarthu saith sedd.

35. Gwnaethom benderfynu, fodd bynnag, y dylem argymell etholaethau a gynhwysid yn eu crynswth o fewn ffiniau'r chwe sir arall.

YR ARGYMHELLION

36. Cyhoeddwyd ein hargymhellion dros dro ar gyfer Cymru gyfan ym mis Mehefin 1981. Yn y cynigion gwreiddiol hyn, dim ond un o'r etholaethau a fodolai ar y pryd a adawyd yn gwbl ddigynnewid. Nodir isod ein cynigion, yr addasiadau dilynol a'r safbwyntiau a fynegwyd yn lleol.

(i) nifer yr etholwyr seneddol yn y sir ym 1981 wedi'i rhannu â chwota etholiadol 1981 (58,753).

CLWYD

37. Ar sail nifer yr etholwyr yn y sir ym 1981, sef 295,596, yr oedd ganddi hawl i bum sedd. Mae'r sir ar hyn o bryd yn cynnwys tair etholaeth gyfan, rhan fwyaf un etholaeth a darn bach iawn o un arall.
38. Nodwyd mai niferoedd yr etholwyr yn y tair etholaeth a oedd yn gyfan gwbl oddi mewn i'r sir oedd 70,843 (West Flint), 77,091 (East Flint) a 81,990 (Wrexham), a theimlem fod y niferoedd hyn yn rhy uchel i ganiatáu bod yr etholaethau'n aros yn ddigymffwrdd. Yr oeddem yn ymwybodol hefyd fod gan etholaeth bresennol East Flint ddau ddarn datgysylltiedig a phenderfynwyd unioni'r anghysonder hwn os oedd modd yn y byd.
39. Yr oedd yn y sir chwe dosbarth â niferoedd eu hetholwyr yn amrywio o 30,362 (Glyndŵr) i 83,952 (Wrexham Maelor). Yr oedd niferoedd yr etholwyr mewn pedair yn rhy isel iddynt ffurfio etholaethau ar wahân. Yn amlwg o dan yr amgylchiadau hyn, byddai'n rhaid i rai dosbarthau gael eu rhannu rhwng etholaethau er mwyn sicrhau etholaethau â niferoedd lled gyfartal o etholwyr.
40. Penderfynwyd na fyddai ystyriaethau daearyddol yn cyfiawnhau argymell etholaeth a groesai'r ffin sirol. Ni fyddai ychwaith angen datrys y broblem yn y modd hwnnw er mwyn osgoi anghysonderau eithafol rhwng niferoedd yr etholwyr yn y gwahanol etholaethau.
41. Argymhellwyd dros dro leihau etholaeth Wrexham yn sylweddol trwy uno tref Wrecsam ag ardal Maelor (ar hyn o bryd yn rhan ddatgysylltiedig o etholaeth East Flint), gan gymryd gofal arbennig i osgoi rhannu tref Wrecsam ei hun. Unwyd wardiau gogleddol Bwrdeistref Wrecsam Maelor â Dosbarth Alun a Glannau Dyfrdwy i ffurfio etholaeth o'r enw Alyn and Deeside. Unwyd gweddill wardiau Bwrdeistref Wrecsam Maelor, sef rhai'r gorllewin, â Dosbarth Glyndŵr a wardiau deheuol cyfagos Bwrdeistref Colwyn i ffurfio etholaeth Clwyd South West. Gwnaethom gyfuno gweddill wardiau Bwrdeistref Colwyn, sef rhai'r arfordir (gan gynnwys Colwyn), â rhan fwyaf Bwrdeistref Rhuddlan (gan gynnwys y Rhyl) i ffurfio etholaeth Clwyd North West. Yr oedd gweddill wardiau Bwrdeistref Rhuddlan yn cynnwys tref Prestatyn ac fe'u hymgorfforwyd gyda Bwrdeistref Delyn i lunio'r etholaeth a argymhellm dros dro, o'r enw Delyn.
42. Pennwyd bod pob un o'r etholaethau hyn yn etholaeth sirol (CC). Dyma'r etholaethau a gynigiwyd a niferoedd eu hetholwyr:

Etholwyr 1981

Alyn and Deeside CC	59,782
Clwyd North West CC	61,606
Clwyd South West CC	55,706
Delyn CC	62,001
Wrexham CC	56,861

43. Golygai'r sylwadau a gawsom fod angen cynnal ymchwiliad. Cynhaliwyd hwn yn yr Wyddgrug ar 11eg a 12fed Ionawr, 1982. Fodd bynnag, bu galw am ailagor yr ymchwiliad oherwydd bod y tywydd mawr wedi rhwystro rhai pobl a ddymunai fod yn bresennol ac annerch yr ymchwiliad rhag gwneud hynny. Penderfynwyd ailgynnal yr ymchwiliad i wrando sylwadau'r rheiny a rwystrwyd gan y tywydd garw rhag dod i'r un cyntaf. Cynhaliwyd yr ail ymchwiliad yn yr Wyddgrug ar 27ain Ebrill, 1982.
44. Yn ei adroddiad i ni, dywedodd y Comisiynydd cynorthwyol y dadleuid:
—naill ai y dylid neilltuo chwe sedd i'r sir,
—neu y dylai etholaethau barhau i groesi ffin y sir â Gwynedd.
- Rhoes wybod i ni na welai unrhyw gyfiawnhad dros neilltuo un etholaeth yn fwy na'r hawl nac unrhyw reswm diwrthdro dros argymell etholaeth a groesai'r ffin sirol. Ymhellach, yr oedd cefnogaeth helaeth dros barchu'r ffin sirol.
45. Cyflwynwyd amryw o wrthgynigion yn yr ymchwiliad lleol. Cynigiai rhai o'r rhain batrwm cwbl wahanol o ddosbarthiad ar gyfer pum etholaeth, tra oedd eraill yn dadlau o blaid newidiadau llai eithafol i'n hargymhellion dros dro. Nododd y Comisiynydd cynorthwyol fod pob dosbarth am fod yn etholaeth ynddo'i hun neu, os nad oedd hynny'n bosibl, yn graidd i etholaeth newydd. Daeth i'r casgliad, fodd bynnag, o gofio nifer y dosbarthau a niferoedd yr etholwyr o'u mewn, y byddai'n amhosibl cadw, heb rannu rywfodd, fwy na thri dosbarth.
46. Gwrthododd rai gwrthgynigion am eu bod yn methu sicrhau cydbwysedd rhesymol, hyd yn oed, o ran niferoedd yr etholwyr. Yr oedd dau wrthgynnig, a effeithiai ar y sir gyfan, heb yr anfantais hon, a pherthynai i un rai nodweddion a oedd yn fwy deniadol na'n hargymhellion dros dro ein hunain, er bod iddo nodweddion eraill oedd yn llai deniadol.

47. Gwelai'r Comisiynydd cynorthwyol fod yr awgrym yn ein cynigion i rannu'r Rhyl oddi wrth Brestatyn gerllaw, yn llai na boddhaol, ond y byddai ychwanegu Prestatyn at etholaeth Clwyd North West wedi creu gormod o anghydbwysedd yn niferoedd yr etholwyr. Rhaid oedd i strïbed Bae Colwyn/Abergele ar hyd yr arfordir naill ai goll'i chyffiniau gwledig ac ennill rhan o diriogaeth Rhuddlan, neu ychwanegu at ei chyffiniau gwledig ardaloedd heb unrhyw gysylltiad â hwy. Ond (ar wahân i Brestatyn) deuai'r strïbed gyda glannau'r môr yn un etholaeth gryno, tra deuai'r cyffiniau gwledig yn rhan o etholaeth a oedd yn un wledig yn bennaf.

48. Derbyniodd fod ardal gyfan Bwrdeistref Wrecsam Maelor yn canolbwyntio'n fwy naturiol ar dref Wrecsam ond, oherwydd nifer yr etholwyr, fod rhaid iddi naill ai colli darnau i'w dwy gymdoges neu gael ei rhannu trwy'r dref.

49. Pe câi naill ai wardiau gorllewinol neu wardiau gogleddol Wrecsam Maelor eu hychwanegu at etholaeth arfaethedig Wrexham, byddai gormod o anghydbwysedd rhwng niferoedd yr etholwyr yn y gwahanol etholaethau. Teimlai fod cysylltiadau a chydberthynas hefyd rhwng y wardiau gorllewinol a'r ardaloedd gwledig a gynhwysid yn etholaeth Clwyd South West.

50. Fodd bynnag, credai'r Comisiynydd cynorthwyol fod y cysylltiadau â Wrecsam yn arbennig o gryf yn achos Cymdeithasau Trefalun a Burton (rhan o ward 12). Yr oedd cysylltiadau Cymdeithas Llai (wardiau 13 a 14) yn llai clir ac ni fyddai ei chynnwys yn etholaeth arfaethedig Alyn and Deeside yn creu unrhyw broblem arbennig nac yn rhoi ffin annaturiol.

51. Oni bai diffyg difrifol yn ein hargymhellion dros dro, credai na fyddai'n ymarferol nac yn iawn iddo argymhell ateb arall nad oedd yn fwy cyffredinol dderbyniol. Daeth i'r casgliad nad oedd ein hargymhellion dros dro yn cynnwys unrhyw ddiffyg mawr ac nad oeddent ychwaith yn anodd eu gweithredu. Er bod rhai pobl yn cefnogi'r gwrthgynigion, fe'u gwrthwynebid gan y mwyafrif.

52. Nododd y Comisiynydd cynorthwyol na fyddai trosglwyddo ward 12 yn ei chrynswth (Cymdeithasau Trefalun, Burton, a Marford a Hoseley) yn gwneud unrhyw newid amlwg i gydbwysedd niferoedd yr etholwyr. Gan hynny, argymhellodd y dylai ward 12 ym Mwrdeistref Wrecsam Maelor gael ei throsglwyddo o etholaeth arfaethedig Alyn and Deeside i etholaeth arfaethedig Wrexham, ond na ddylid gwneud unrhyw newid arall i'n hargymhellion dros dro.

53. Gwnaethom benderfynu derbyn argymhellion y Comisiynydd cynorthwyol i newid etholaethau Alyn and Deeside a Wrexham fel y'u cynigiwyd gennym trwy drosglwyddo ward 12. Penderfynwyd hefyd na ddylid newid etholaethau Clwyd North West, Clwyd South West na Delyn fel y'u hargymhellwyd dros dro gennym, ac eithrio lle'r oedd angen er mwyn rhoi cyfrif i Rhuddlan (Communities) Order 1982 a Borough of Rhuddlan (Electoral Arrangements) Order 1982.

Dyma'n hargymhellion diwygiedig:

	<i>Etholwyr 1981</i>
Alyn and Deeside CC	56,443
Clwyd North West CC	61,618
Clwyd South West CC	55,703
Delyn CC	61,992
Wrexham CC	60,200

54. Yr oedd y sylwadau a dderbyniwyd gennym ar ôl cyhoeddi'n hargymhellion diwygiedig yn dal i wrthwynebu'r canlynol:

- cynnwys wardiau 13 a 14, Bwrdeistref Wrecsam Maelor (sef Cymdeithas Llai), yn etholaeth arfaethedig Alyn and Deeside;
- rhannu Bwrdeistref Rhuddlan rhwng dwy etholaeth, gan wahanu'r Rhyl a Phrestatyn yn sgîl hynny; a
- diflaniad etholaeth bresennol Dinbych a maint (o ran arwynebedd) etholaeth arfaethedig Clwyd South West.

55. Yr oedd mwyafrif y sylwadau a dderbyniwyd y tro hwn yn dadlau y gellid bodloni'u gwrthwynebiadau trwy fabwysiadu'r gwrthgynnig y rhoesai'r Comisiynydd cynorthwyol ystyriaeth fanwl iddo. Gwnaethom ailystyried y gwrthgynnig hwn ac ailedrych ar resymau'r Comisiynydd cynorthwyol dros ei wrthod. Nodwyd y golygai rannu dau ddosbarth, Alun a Glannau Dyfrdwy a Delyn, rhwng tair etholaeth a rhannu dau ddosbarth, Glyndŵr a Wrecsam Maelor, rhwng dwy etholaeth. Yr oedd dau o'r cynghorau dosbarth yr effeithid arnynt wedi ysgrifennu i gefnogi'n hargymhellion diwygiedig. Nodwyd ymhellach y byddai un o'r etholaethau'n cynnwys rhannau o bedwar dosbarth ac y byddai gwelliant a gyflwynwyd i osgoi hyn yn creu etholaeth â dwy ran ar wahân.

56. Gan nad oedd i'r gwrthgynnig hwn, ym marn y Comisiynydd cynorthwyol, fwy o gefnogaeth gyffredinol na'n cynigion ni ac oherwydd y darnio helaethach ar ddosbarthau a ddeuai yn ei sgil, daethom i'r casgliad y dylem ei wrthod.

57. Wedi gwrthod y gwrthgynnig hwn, anochel oedd rhannu Bwrdeistref Rhuddlan. Gwelwyd, fodd bynnag, fod rhywfaint o dynfa rhwng Bae Colwyn a'r Rhyl a bod Prestatyn ar hyn o bryd yn rhan o etholaeth West Flint sydd hefyd yn cynnwys y rhan fwyaf o Ddosbarth Delyn.

58. Cefnogid y gwrthwynebiadau i'r cynnig i gynnwys Llai yn etholaeth Alyn and Deeside gan ddeiseb sylweddol. Heriai rhai o'r sylwadau gasgliadau'r Comisiynydd cynorthwyol a chyfeiriai un at niferoedd yr etholwyr yn y gwahanol etholaethau o dan ein hargymhellion diwygiedig mewn manau eraill yng Nghymru. Gwnaed argraff arnom gan y ddeiseb ac ailystyriwyd yn ofalus y dadleuon a roddwyd ymlaen dros i Lai ffurfio rhan o etholaeth arfaethedig Wrexham. Fodd bynnag, gwnaethom gasglu ar y cyfan y creai hyn anghysondeb na ellid mo'i gyfiawnhau rhwng niferoedd yr etholwyr yn y gwahanol etholaethau a phenderfynwyd cadw at ein hargymhellion diwygiedig.

59. Galwasai un ohebiaeth am ail ymchwiliad lleol ond ni welem unrhyw resymau dros gamre o'r fath. *Argymhellwn* fabwysiadu'n hargymhellion diwygiedig.

DYFED

60. Ceir ar hyn o bryd bedair etholaeth a gynhwysir yn eu crynswth o fewn y sir. Dyma'r hawl gyfredol a phenderfynwyd peidio â newid y nifer honno o seddi.

61. Nodwyd yr anghydbwysedd eithafol rhwng niferoedd yr etholwyr yn etholaethau Cardigan (47,542) a Pembroke (79,237), ac argymhellwyd dros dro y dylid lleihau'n sylweddol ar etholaeth Pembroke trwy drosglwyddo Abergwaun a'r cyffiniau, ynghyd ag ardal Cemaes, i etholaeth Cardigan. Gwnaethom ail-enwi'r etholaeth Ceredigion i gydymffurfio ag enw'r Dosbarth. Cynhwysai'r ardal a drosglwyddid i Geredigion y darn hwnnw o Ddosbarth Preseli a gawsai ei drosglwyddo'n ddiweddar o Ddosbarth De Penfro gan Preseli and South Pembrokeshire (Areas) Order 1981.

62. Golygai'n hargymhellion dros dro newidiadau bach i etholaethau Carmarthen a Llanelli trwy gynnwys Cydweli yn etholaeth Llanelli er mwyn dilyn y ffin ddosbarth yn y gorllewin, a thrwy drosglwyddo ward 7 (Cymdeithas Cwmaman) o Fwrdeistref Dinefwr i etholaeth Carmarthen er mwyn sicrhau niferoedd cyfartal o etholwyr. Cynigiwyd mân newidiadau hefyd i ffin orllewinol etholaeth Carmarthen er mwyn ymgorffori'r ardaloedd hynny a drosglwyddwyd yn ddiweddar i Ddosbarth Caerfyrddin o Ddosbarth De Penfro gan Carmarthen and South Pembrokeshire (Areas) Order 1981.

63. Penderfynwyd pennu pob un o'r etholaethau yn etholaeth sirol (CC). Dyma'r etholaethau a cynigiwyd, ynghyd â niferoedd eu hetholwyr:

	<i>Etholwyr 1981</i>
Carmarthen CC	63,613
Ceredigion CC	61,091
Llanelli CC	64,776
Pembroke CC	65,569

64. Yn sgîl y sylwadau a dderbyniwyd, bu raid i ni gynnal ymchwiliad lleol. Agorodd yr ymchwiliad lleol hwn yn Hwlfordd ar 6ed Ionawr, 1982 a pharhaodd am ddau ddiwrnod.

65. Yn yr adroddiad a gyflwynwyd ganddo i ni, nododd y Comisiynydd cynorthwyol mai prif bynciau'r drafodaeth yn yr ymchwiliad lleol oedd:

- a ddylid cynnwys Cydweli yn etholaeth Llanelli;
- a ddylid cynnwys Cwmaman yn etholaeth Carmarthen; ac
- a ddylid newid y ffin rhwng etholaethau presennol Cardigan a Pembroke; os dylid, a ddylai etholaeth Cardigan gael ei henwi Ceredigion fel y cynigiwyd gennym.

66. Gwelodd y Comisiynydd cynorthwyol fod gan Gydweli gysylltiadau â Chaerfyrddin a Llanelli fel ei gilydd ond ystyriodd nad oedd y cysylltiadau â Chaerfyrddin a gâi eu torri yn ddigon cryf i gyfiawnhau cadw ffin bresennol yr etholaeth—yn enwedig o gofio mantais ein cynigion yn gymaint â'u bod yn dilyn y ffin ddosbarth newydd.

67. Nododd y Comisiynydd cynorthwyol fod cefnogaeth leol i'n cynigion ar gyfer Cwmaman ac, o dan yr amgylchiadau hyn, yr oedd yntau'n cytuno â hwy.

68. Enynnwyd cryn wrthwynebiad gan ein cynnig i gynnwys 11 ward yng ngogledd Dosbarth Preseli mewn etholaeth gyda Dosbarth Ceredigion. Dadleuwyd bod yr angen am gynnal diddordebau unigryw a chryf Ceredigion a Phenfro yn gorbwyso newid statws y cyn-siroedd hyn a'r gofyniad yn sgîl hynny y dylai niferoedd yr etholwyr o fewn yr etholaethau dan sylw fod yn agos bellach at y cwota etholiadol. Ni welodd y Comisiynydd cynorthwyol, fodd bynnag, unrhyw dystiolaeth i awgrymu bod ansawdd y gynrychiolaeth yn debyg o ddiodef trwy helaethu etholaeth Cardigan. O'r 11 ward ym Mhreseli y cynigid eu cynnwys yn etholaeth Ceredigion, nododd fod gan bump gydberthynas ag Abergwaun a chan bump gydberthynas ag Aberteifi. Y ward arall, Rhif 31 yn Nosbarth Preseli, oedd yr ardal a drosglwyddwyd yn ddiweddar o Ddosbarth De Penfro i Ddosbarth Preseli. Yr oedd gan fwyafrif y cymdeithasau yn y ward hon berthynas gref â Hwlfordd ac nid ag Abergwaun nac Aberteifi.

69. Daeth y Comisiynydd cynorthwyol i'r casgliad nad oedd y ffactorau a bwysleisiwyd mewn gwrthwynebiad i'n cynigion yn ddigon cryf i gyfiawnhau cadw'r anghydbwysedd rhwng niferoedd yr etholwyr yn etholaethau Cardigan a Pembroke. Fodd bynnag, er nodi y cynyddid yr anghydbwysedd rhwng niferoedd yr etholwyr yn yr etholaethau arfaethedig dan sylw trwy drosglwyddo ward 31 i etholaeth Pembroke, penderfynodd fod grym arbennig yn y dadleuon o blaid y cam hwn. Argymhellodd newid ein hargymhellion dros dro yn unol â hynny. Argymhellodd hefyd y dylai enw'r etholaeth ogleddol arfaethedig gydnabod ei bod yn cynnwys rhan o etholaeth bresennol Pembroke ac awgrymodd Ceredigion and Pembroke North fel yr enw mwyaf addas.

70. Ystyriem fod achos wedi'i gyflwyno'n dda dros drosglwyddo ward 31 o etholaeth Ceredigion i etholaeth Pembroke a phenderfynwyd derbyn yr argymhelliad hwn er y gwanheid effeithiau'r cynigion a wnaethpwyd gennym er mwyn lleihau'r anghydbwysedd yn niferoedd yr etholwyr. Ar ôl ystyried yr holl ddewisiadau, gwnaethom benderfynu hefyd fabwysiadu'r enw Ceredigion and Pembroke North, a chadw enw etholaeth arfaethedig Pembroke.

Diwygiwyd ein hargymhellion ar gyfer y sir fel a ganlyn:

	<i>Etholwyr 1981</i>
Carmarthen CC	63,613
Ceredigion and Pembroke North CC	59,662
Llanelli CC	64,776
Pembroke CC	66,998

71. Cyflwynwyd sylwadau yn sgîl cyhoeddi'n hargymhellion diwygiedig. Ailadroddai'r holl wrthwynebwyr eu gwrthwynebiad i'r cynnig i gynnwys darn o Ddosbarth Preseli mewn etholaeth gyda Dosbarth Ceredigion. Nodwyd gennym fod dwy ohebiaeth yn cyfeirio at ein hargymhellion mewn manau eraill yng Nghymru ac yn dadlau ein bod wedi torri'r Rheolau. Gwrthodwn hyn yn bendant. Tra'n cydnabod cryfder y teimlad yn erbyn ein hargymhellion yng ngogledd Preseli, ni welsom ddim yn y sylwadau a godai dystiolaeth newydd neu a rôl bwys priodol ar y ffaith y byddai etholaeth Pembroke yn cynnwys bron 80,000 o etholwyr ped ildiem i'r gwrthwynebiadau. Daliem yn ddiysgog ein barn y byddai hyn yn annerbyniol o uchel a daethom i'r casgliad na ddylid newid ein hargymhellion diwygiedig.

72. Derbyniwyd gohebiaeth bellach yn erbyn cynnwys Cydweli yn etholaeth arfaethedig Llanelli. Nodwyd gennym, pe bai Cydweli yn aros yn etholaeth Carmarthen, y golygai rannu ward ddosbarth rhwng etholaethau ac y byddai darn o Fwrdeistref Llanelli y tu allan i etholaeth Llanelli.

73. Ailedrychwyd ar gasgliadau'r Comisiynydd cynorthwyol ac ni welwyd unrhyw reswm dros newid ein hargymhellion.

Argymhellwn fabwysiadu'n hargymhellion diwygiedig.

┌


PEMBROKE CC


CARDIGAN CC

CARMARTHEN CC

LLANELLI CC

└





GWYNEDD

74. Yr oedd yng Ngwynedd 175,611 o etholwyr ym 1981. Penderfynwyd yn ein hargymhellion dros dro y dylem neilltuo tair sedd yn lle'r tair etholaeth gyfan a'r darnau o ddwy arall a gynhwysid ar y pryd o fewn y sir.

75. Cydnabyddem y golygai hyn ostwng rywfaint ar safon bresennol y gynrychiolaeth. Gwerthfawrogem hefyd, wrth ailddosbarthu seddi o fewn y sir, yr anawsterau a achosid gan ei daearyddiaeth, yn enwedig ynys Môn, penrhyn Llŷn a natur fynyddig Eryri. Penderfynwyd, fodd bynnag, y dylai'n hargymhellion dros dro anelu at sicrhau nifer y seddi yr oedd gan y sir hawl ddamcaniaethol iddynt, gyda chysondeb mor gydradd â phosibl rhwng niferoedd eu hetholwyr.

76. Pum dosbarth a geir o fewn y sir, â niferoedd eu hetholwyr yn amrywio o ryw 21,000 i 50,000, ac yr oedd yn amlwg bod pob un yn rhy fach i ffurfio etholaeth ar wahân heb achosi anghydbwysedd mawr o gymharu â niferoedd yr etholwyr yn y ddwy etholaeth arall.

77. Darparai'n hargymhellion dros dro ar gyfer estyn etholaeth Anglesey, a rannai'r un ffiniau â Bwrdeistref Ynys Môn, i gynnwys Dinas Bangor, ar y pryd ym Mwrdeistref Arfon ar y tir mawr, a ffurfio etholaeth o faint addas. Nodwyd bod cysylltiadau cyflogi a hamddena rhwng Bangor a'r ynys, oedd â ffyrdd a rheilffyrdd da.

78. Estynnwyd etholaeth Caernarvon i gynnwys gweddill Bwrdeistref Arfon a thair ward gogledd-orllewin Bwrdeistref Aberconwy, a ymgorfforai Lanfairfechan a Phenmaen-mawr. Unwyd gweddill Bwrdeistref Aberconwy â Dosbarth Meirionnydd i ffurfio'r drydedd etholaeth.

79. Rhôl ein hystyriaethau a'n cynigion gyfrif i effeithiau Dwyfor (Communities) Order 1981.

80. Pennwyd pob un o'r etholaethau yn etholaeth sirol (CC). Dyma'r etholaethau a gynigiwyd a niferoedd eu hetholwyr:

	<i>Etholwyr 1981</i>
Aberconwy and Meirionnydd CC	58,836
Caernarfon CC	56,919
Ynys Môn and Bangor CC	59,856

81. Oherwydd y nifer fawr o sylwadau a wrthwynebai'r argymhellion dros dro a gyhoeddwyd gennym, bu raid cynnal ymchwiliad lleol. Agorodd yr ymchwiliad lleol hwn yng Nghaernarfon ar 2 Chwefror, 1982 a pharhaodd am bum diwrnod.

82. Yn ei adroddiad i ni, dywedodd y Comisiynydd cynorthwyol mai prif bynciau'r drafodaeth yn yr ymchwiliad lleol oedd:

- a ddylid rhannu'r sir yn dair etholaeth, naill ai yn unol â'n hargymhellion dros dro neu ar ryw sail arall;
- a ddylid rhannu'r sir yn bedair etholaeth a gynhwysid yn eu crynswth o fewn ei ffiniau, naill ai gyda'r etholaethau presennol yn aros yn ddigyfnewid (cyn belled â phosibl) neu ar sail wahanol; ac
- a ddylai ardal de-orllewin Clwyd, ar y pryd yn rhan o etholaeth Merioneth, aros yn rhan o'r etholaeth honno, gan groesi'r ffin sirol.

83. Ag un eithriad, gwrthodai'r holl sylwadau ein hargymhellion dros dro, gan alw am neilltuo pedair etholaeth—rhaf, fel dewis cyntaf, a ddiogelai'r *status quo*.

84. Ystyriodd y Comisiynydd cynorthwyol y dadleuon unfrydol, bron, yn erbyn cynnwys saith ward Dinas Bangor mewn etholaeth gydag Ynys Môn. Gwelodd y byddai hyn yn gwahanu Bangor o'i maestrefi a'r cyffiniau a berthynai iddi'n draddodiadol ac yn naturiol, tra buasai cynnwys yr ardaloedd hyn wedi rhoi nifer fawr iawn o etholwyr. Ynysol dros ben oedd agwedd pobl Môn ac yr oedd y cynghorau cymdeithas nesaf at y tir mawr yn gwrthwynebu'r cynnig. Nid oedd nifer ei hetholwyr, sef 50,000, yn rhy bell oddi wrth y cwota etholiadol a daeth i'r casgliad y dylai Ynys Môn aros yn etholaeth ar wahân o fewn ei ffiniau presennol.

85. Nododd y Comisiynydd cynorthwyol y golygai rhannu'r tir mawr rhwng dwy etholaeth fod niferoedd eu hetholwyr yn fwy na'r cwota etholiadol. Credai y byddai eu maint, eu siâp a'u hygyrchedd yn ystyriaethau daeryddol arbennig o'r mwyaf diamwys a fyddai'n cyfiawnhau dosbarthiad gwahanol i weddill y wlad. Gwrthododd, felly, ein cynnig i neilltuo tair sedd ar gyfer Gwynedd ac aeth ymlaen i ystyried ffyrdd o rannu'r sir yn bedair sedd, ac etholaeth Ynys Môn yn un o'r rheiny.

86. Cafodd nad oedd unrhyw ddadl o sylwedd a oedd yn gryfach na'r gofyniad y dylai etholaethau gael eu cynnwys yn eu crynswth o fewn ffiniau sirol. Gwrthododd y sylwadau y dylai rhai o wardiau Bwrdeistref Aberconwy aros mewn etholaeth gyda rhan o Glwyd ac y dylai rhai o wardiau Dosbarth Glyndŵr yng Nghlwyd aros mewn etholaeth gyda Dosbarth Meirionnydd.

87. Daeth i'r casgliad na allai Dosbarth Meirionnydd ffurfio etholaeth ar wahân oherwydd bod nifer ei etholwyr yn sylweddol is na hanner y cwota etholiadol. O dan yr amgylchiadau hyn, yr oedd angen newid rywfaint ar yr etholaethau presennol.

88. Awgrymasid yn yr ymchwiliad gynllun na wnâi unrhyw newid i ffiniau etholaethau presennol Anglesey a Caernarvon ond a gynhwysai ddarn deheuol Bwrdeistref Aberconwy mewn etholaeth gyda Dosbarth Meirionnydd. Yn ei adroddiad, dywedodd y Comisiynydd cynorthwyol i'r cynnig hwn gael cryn gefnogaeth yn ystod yr ymchwiliad ac mewn gohebiaeth ar ôl hynny. Yr oedd iddo'r fantais o roi cyfrif nid yn unig i'r ystyriaethau daeryddol arbennig a oedd yn gymwys yn y sir ond hefyd i ffactorau cymunedol, ieithyddol a diwylliannol. Credai fod y manteision hyn yn cyfiawnhau niferoedd isel yr etholwyr o fewn y gwahanol etholaethau ac argymhellodd fabwysiadu'r cynnig.

89. Argymhellodd y dylai etholaethau presennol Anglesey a Caernarvon gael eu hail-enwi Ynys Môn a Chaernarfon i gydymffurfio â dymuniadau lleol. Ar gyfer yr etholaeth a gynhwysai Fangor a Chonwy argymhellodd yr enw Penrhyn, ac ar gyfer yr etholaeth arall Meirionnydd Blaenau Conwy.

90. Rhoesom ystyriaeth i adroddiad y Comisiynydd cynorthwyol, gan astudio trawsgrïpt yr ymchwiliad lleol a chan edrych ar yr holl sylwadau a gyflwynwyd i ni. Nodwyd yr honiad mai Gwynedd oedd calon Cymru ond ni chredem fod hyn, ynddo'i hun, yn ddigon o gyfiawnhad dros neilltuo pedair sedd i'r sir. Nodwyd hefyd fod gwrthwynebiad unfrydol i'r cynnig i neilltuo tair sedd yn unig ond cydnabyddwyd fod hyn i'w ddisgwyl gan y byddai, o ran effaith, yn golygu lleihau cynrychiolaeth yr ardal o un sedd. Mater arall oedd a oedd yr anawsterau daeryddol yn ddigon i wneud rhaniad ar sail tair sedd yn anymarferol.

91. Cawsom y pwnc hwn yn un anodd dros ben. Er mwyn deall rhai pwyntiau'n well, cyfarfuom â'r Comisiynydd cynorthwyol a'i wahodd i ymhelaethu ar ei adroddiad (heb gyflwyno unrhyw ddeunydd na barn newydd) ac, yn fwyaf arbennig, ar ei asesiadau o'r dystiolaeth a roddwyd ger ei fron a'r rhesymu a'i harweiniodd at ei gasgliadau. Bu'r cyfarfod hwn o gymorth mawr i ni. Yn ei oleuni ac ar ôl ailedrych yn fanwl ar yr holl dystiolaeth ger ein bron, ystyriwyd a oedd y ffaith bod y sylwadau i gyd, ymron, yn mynnu neilltuo pedair sedd wedi golygu na roddwyd digon o sylw i bosibiliadau eraill ar sail tair sedd ac, os felly, a ddylem gynnal ymchwiliad newydd yn seiliedig naill ai ar ein cynllun gwreiddiol ni ar gyfer tair sedd neu ar ryw gynllun tebyg arall. Dyma'r casgliadau y daethom iddynt yn y pen draw:

- (a) cynhwysai'n hargymhellion dros dro un etholaeth (Aberconwy and Meirionnydd) y profwyd ei bod yn creu anawsterau difrifol o ran cysylltiadau;
- (b) yr oedd pob cynllun posibl arall ar sail tair sedd i Wynedd yn cynnwys o leiaf un etholaeth y byddai ei maint a'i nodweddion daeryddol yn gwneud cysylltiadau, ac felly cynrychiolaeth effeithiol, yn anodd iawn;
- (c) yr oedd gwrthwynebiadau difrifol iawn i'r cynnig i wahanu Bangor oddi wrth ei chyffiniau fel a nodwyd yn ein hargymhellion dros dro;
- (d) yr oedd yn rhaid i unrhyw gynllun tair sedd a gynhwysai Fangor a'r cyffiniau gydag Ynys Môn fod yn annerbyniol gan y byddai nifer fawr iawn o etholwyr yn yr etholaeth honno, tra byddai problem cysylltiadau ar weddill y tir mawr yn aros i bob pwrpas heb ei datrys; ac
- (e) yr oedd yn rhaid i unrhyw gynllun tair sedd a gynhwysai Fangor a'r cyffiniau mewn etholaeth ar y tir mawr fod yn annerbyniol, gan y gwaethygid problem y cysylltiadau ac y byddai gormod o etholwyr mewn un o etholaethau'r tir mawr neu yn y ddwy ohonynt.

92. Oherwydd nodweddion daeryddol arbennig Gwynedd, felly, ac o ystyried y cysylltiadau a dorrid pe câi Bangor ei gwahanu oddi wrth ei chyffiniau, fe'n gwthiwyd i'r casgliad bod rhaid neilltuo sedd ychwanegol i Wynedd a, chan hynny, nad oedd angen ail ymchwiliad o'r math a ragwelsem. Yna, aethom ymlaen i ystyried p'un ai i dderbyn y cynllun a argymhellwyd gan y Comisiynydd cynorthwyol neu i gyflwyno rhyw gynllun arall ar sail pedair sedd.

93. Yr oeddem yn bryderus y golygai'r cynllun a argymhellwyd gan y Comisiynydd cynorthwyol y câi un etholaeth ei rhannu o hyd gan Fwlch Crimea er y buasai hyn yn ffynhonnell gwrthwynebiadau i'n hargymhellion dros dro. Fodd bynnag, credem fod yr anhawster a greai Bwlch Crimea o ran cysylltiadau wedi'i orbwysleisio yn y gwrthwynebiadau yn ôl pob tebyg; yr oedd rhywfaint o anhawster ond nid oedd y rhwystr yn anorchfygol ac fe ddarperid cysylltiad rheilffordd trwy'r twnel.

94. O blith y dulliau posibl eraill o rannu'r tir mawr rhwng tair etholaeth a ystyriwyd gennym, sicrhâi rhai fwy o gysondeb etholiadol ag etholaethau a oedd yn llai o ran arwynebedd na'r etholaethau a argymhellodd y Comisiynydd cynorthwyol. Gwnaethom wrthod, fodd bynnag, bosibilrwydd rhannu penrhyn Llŷn rhwng etholaethau ac ni allem ychwaith dderbyn etholaeth yn ymestyn o Aberdaron, ym mhen pellaf Llŷn, i Aberdyfi, pwynt mwyaf deheuol Meirionnydd.

95. Nodwyd i'r Comisiynydd cynorthwyol roi i bawb yn yr ymchwiliad gyfle llawn i drafod y gwahanol ddewisiadau ond iddo weld nad oedd yr un a oedd mor foddhaol â'r cynllun a argymhellid ganddo ef bellach nac yn welliant arno.

96. Penderfynwyd derbyn ffiniau ac enwau'r etholaethau a argymhellwyd gan y Comisiynydd cynorthwyol fel ein hargymhellion diwygiedig.

Dyma'n hargymhellion diwygiedig:

	<i>Etholwyr 1981</i>
Caernarfon CC	43,893
Meirionnydd Blaenau Conwy CC	30,443
Penrhyn CC	51,482
Ynys Môn CC	49,793

97. Cyflwynwyd sylwadau yn sgîl cyhoeddi'n hargymhellion diwygiedig.

98. Gwrthwynebwyd neilltuo pedair etholaeth i Wynedd heb ostyngiad cyfatebol yn y Gymru drefol er mwyn osgoi gor-gynrychiolaeth fwy eithafol fyth o'i chymharu â Lloegr. Cyfeiriwn at y posibilrwydd hwn ym mharagraff 205.

99. Gwrthwynebai un ohebiaeth y cynnig i rannu Gwynedd yn bedair etholaeth ac, yn fwyaf arbennig, etholaeth arfaethedig Meirionnydd Blaenau Conwy. Fodd bynnag, nid oedd yn glir ai neilltuo pedair sedd a wrthwynebid neu'r ffordd y rhannwyd y sir.

100. Yr oedd yr holl sylwadau eraill naill ai'n cymeradwyo neu heb anghytuno â neilltuo pedair sedd yng Ngwynedd. Yr oedd y mwyafrif ohonynt yn gwrthwynebu enwau etholaethau arfaethedig Meirionnydd Blaenau Conwy a Phenrhyn, er bod un hefyd yn gwrthwynebu enw etholaeth arfaethedig Ynys Môn.

101. Gwrthwynebai dwy ohebiaeth gynnwys Llanrwst yn etholaeth arfaethedig Meirionnydd Blaenau Conwy a galwai un ohonynt am ei drosglwyddo i etholaeth arfaethedig Penrhyn.

102. Cafwyd rhai sylwadau a'n hanogai i newid y ffin a gynigiwyd rhwng etholaethau Meirionnydd Blaenau Conwy a Phenrhyn i ddilyn ffiniau dyfodol y cymdeithasau newydd arfaethedig. Dadleuai'r rhain y dylid cynnwys cymdeithasau newydd arfaethedig Caerhun a Llanddoged yn etholaethau Penrhyn a Meirionnydd Blaenau Conwy a byddent wedi golygu rhagachub newidiadau mewn ffiniau llywodraeth leol, gan fabwysiadu cymdeithasau yn lle wardiau fel yr uned sylfaenol. Gwnaethom gadarnhau ein penderfyniad cynharach na allem achub y blaen ar Orchmynion a oedd yn cael eu paratoi ond cydnabyddwyd y gallem ymhen amser ymgymryd ag arolwg dros dro i roi cyfrif i Orchmynion o'r fath.

103. O dan yr holl amgylchiadau hyn, penderfynwyd peidio â newid y ffiniau a gynigiwyd gennym i'r etholaethau.

104. Ystyriwyd y gwrthwynebiadau a wnaed i enwau'r etholaethau arfaethedig. Gwelsom i'r enw "Ynys Môn" ddenu cryn gefnogaeth ac felly fe wrthodwyd y gwrthwynebiad perthnasol. Fodd bynnag, yr oedd yr enwau arfaethedig "Meirionnydd Blaenau Conwy" a "Penrhyn" wedi ysgogi gwrthwynebiad helaeth ac ychydig iawn o gefnogaeth. Cyflwynwyd nifer o ddewisiadau eraill ar gyfer pob un a rhoesom ystyriaeth ofalus iddynt oll. Daethom i'r casgliad y dylem addasu'n hargymhellion ac ail-enwi etholaethau arfaethedig "Meirionnydd Blaenau Conwy" a "Penrhyn" yn "Meirionnydd Nant Conwy" a "Conwy".

Dyma'n hargymhellion addasedig:

	<i>Etholwyr 1981</i>
Conwy CC	51,482
Meirionnydd Nant Conwy CC	30,443

105. Yr oedd y sylwadau a dderbyniwyd gennym ar ôl cyhoeddi'n hargymhellion addasedig yn dal i wrthwynebu materion y rhoesem ystyriaeth ofalus iddynt yn gynharach.

106. Ystyriwyd eto'r cynigion i roi'r enwau "Arlechwedd" ar etholaeth Conwy ac "Anglesey" ar etholaeth Ynys Môn. Daethom i'r casgliad, fodd bynnag, i'r enwau Conwy ac Ynys Môn gael cryn gefnogaeth yn gynharach ac na ddylem newid enwau'r etholaethau hyn yn ein hargymhellion.

107. Cawsom anogaeth eto i drosglwyddo cymdeithas o etholaeth arfaethedig Conwy i etholaeth arfaethedig Meirionnydd Nant Conwy. Cadarnhawyd na ddylem rannu ward rhwng etholaethau ac na allem achub y blaen ar newidiadau arfaethedig mewn ffiniau llywodraeth leol.

108. Dadleuwyd eto y dylai etholaeth Meirionnydd Nant Conwy fel y'i cynigiwyd gennym gael ei henwi "Meirionnydd a Nant Conwy". Gwnaethom benderfynu bod y cysylltair yn ychwanegiad diangen at enw a oedd eisoes yn hir.

Argymhellwn fabwysiadu'n hargymhellion addasedig fel a ganlyn:

	<i>Etholwyr 1981</i>
Caernarfon CC	43,893
Conwy CC	51,482
Meirionnydd Nant Conwy CC	30,443
Ynys Môn CC	49,793


ANGLESEY CC


CONWAY CC

DENBIGH CC

CAERNARVON CC

MERIONETH CC





©Crown Copyright 1983

MORGANNWG GANOL

109. Yr oedd nifer yr etholwyr o fewn y sir ym 1981, sef 403,633, yn rhoi iddi hawl i saith sedd. Mae Morgannwg Ganol ar hyn o bryd yn cynnwys tair etholaeth gyfan a darnau o naw arall. Mae darnau helaethaf chwech o'r etholaethau hyn wedi'u lleoli ar draws y ffin sirol yng Ngwent, Powys, De Morgannwg a Gorllewin Morgannwg, tra bo darnau bach o dair arall yn Ne Morgannwg.

110. Nodwyd bod nifer etholwyr Bwrdeistref Rhondda yn addas iddi ffurfio etholaeth, ond amrywiai'r dosbarthau eraill o 46,100 i 96,300 o etholwyr ac yr oeddent naill ai'n rhy fach neu'n rhy fawr i ffurfio etholaethau ar wahân. Anochel, felly, oedd croesi ffiniau dosbarth er mwyn sicrhau mwy o gysondeb rhwng niferoedd yr etholwyr yn yr amrywiol etholaethau.

Cawsom, fodd bynnag, fod y ffiniau dosbarth o fewn y sir, yn enwedig yn y gogledd, yn tueddu i ddilyn y gwahanfeydd dŵr rhwng y cymoedd, ac y byddai ychwanegu un ward neu amryw o wardiau at ddsbarth oedd â nifer isel o etholwyr i ffurfio etholaeth o'r maint iawn, neu drosglwyddo wardiau o ddsbarth â nifer uchel o etholwyr, yn creu anawsterau'n aml o ran daearyddiaeth a hygyrchedd. Wrth lunio'n hargymhellion dros dro, ceisiasom osgoi'r anawsterau amlycaf a mwyaf difrifol o'r math hwn ond teimlem ei bod yn iawn, i ddechrau, i anelu at sicrhau cysondeb rhesymol rhwng niferoedd yr etholwyr o fewn y gwahanol etholaethau.

111. Penderfynwyd estyn etholaeth Aberdare i gynnwys y cyfan o Fwrdeistref Cwm Cynon a dwy ward dde-orllewinol Bwrdeistref Merthyr Tudful (Rhifau 7 ac 8)—wardiau, er eu bod yn y cwm nesaf, nad ydynt ond ychydig o filltiroedd i ffwrdd o ddilyn y brif ffordd. Unwyd gweddill Bwrdeistref Merthyr Tudful â naw ward ogleddol Dosbarth Cwm Rhymni a gysylltir gan ffordd Blaenau'r Cymoedd.

112. Gwnaethom gyfuno Bwrdeistref Ogwr â phum ward orllewinol Bwrdeistref Taf-Elái. Cysylltid y cymoedd yn rhan ogleddol yr ardal hon gan brif ffyrdd a ddeuai ynghyd mewn manau i'r gogledd o Ben-y-bont ar Ogwr. I'r de o'r manau hyn, yr oedd nodweddion ffisegol yr ardal a'r diwydiannau a ddenid ganddi yn hollol wahanol. Gwnaethom dynnu, felly, ffin yn rhedeg o'r dwyrain i'r gorllewin rhwng y ddwy ardal er mwyn ffurfio etholaethau â niferoedd lled debyg o etholwyr, gan osgoi rhannu tref Pen-y-bont a'r cyffiniau.

Aeth gweddill Dosbarth Cwm Rhymni a gweddill Bwrdeistref Taf-Elái i ffurfio etholaethau ar wahân. Rhô'i'n hystyriaethau a'n cynigion gyfrif i newidiadau mewn ffiniau siroedd a dosbarthau a ddaethai yn sgîl Gwent and Mid Glamorgan (Areas) Order 1981 ac Afan (Communities) Order 1981.

113. Pennwyd pob un o'r etholaethau yn etholaeth sirol (CC).

Dyma'r etholaethau a gynigiwyd a niferoedd eu hetholwyr:

Etholwyr 1981

Aberdare CC	58,560
Bridgend CC	57,191
Caerphilly CC	60,474
Merthyr Tydfil and Rhymney CC	55,544
Ogmore CC	55,551
Pontypridd CC	53,030
Rhondda CC	63,283

114. Yn sgîl cyhoeddi'n hargymhellion dros dro, derbyniwyd gennym nifer o sylwadau yn eu gwrthwynebu, yn llwyr neu yn rhannol, ac o'r herwydd bu raid cynnal ymchwiliad lleol. Agorodd yr ymchwiliad lleol hwn ym Mhontypridd ar 9fed Chwefror, 1982 a pharhaodd am bedwar diwrnod.

115. Yn ei adroddiad i ni, dywedodd y Comisiynydd cynorthwyol mai prif bynciau'r drafodaeth yn yr ymchwiliad lleol oedd:

- a ddylai wardiau gogleddol Dosbarth Cwm Rhymni uno â Glynebwy yn Sir Gwent;
- a ddylai Dosbarth Cwm Rhymni ffurfio un etholaeth;
- a ddylai wardiau 4 a 5 yn Nosbarth Cwm Rhymni gael eu lleoli yn etholaeth arfaethedig Merthyr Tydfil and Rhymney neu yn etholaeth Caerphilly;
- a ddylai ward 10 ym Mwrdeistref Merthyr Tudful ffurfio rhan o etholaeth Merthyr Tydfil and Rhymney neu aros yn rhan o etholaeth bresennol Brecon and Radnor;
- a ddylai wardiau 7 ac 8 ym Merthyr Tudful fod yn rhan o etholaeth arfaethedig Aberdare neu etholaeth Merthyr Tydfil and Rhymney;
- a ddylai etholaeth sirol arfaethedig Aberdare gael ei galw "Cynon Valley" a'i phennu'n etholaeth fwrdeistref;
- a ddylai wardiau gorllewinol Bwrdeistref Taf-Elái aros yn etholaeth Pontypridd neu gael eu cyfuno â wardiau ym Mwrdeistref Ogwr; ac
- a ddylai'r ddwy etholaeth a gynhwysai Fwrdeistref Ogwr gael eu rhannu gan ffin o'r dwyrain i'r gorllewin neu o'r gogledd i'r de, ac ymhle yn union y dylai'r ffin honno redeg.

116. Daeth y Comisiynydd cynorthwyol i'r casgliad nad oedd digon o reswm i gyfiawnhau anwybyddu'r rheol a waharddai groesi ffiniau sirol ac ni phetrusodd ddim rhag argymell y dylid parchu ffin sirol Morgannwg Ganol/Gwent at ddibenion tynnu ffiniau rhwng etholaethau.

117. Gwrthododd y Comisiynydd cynorthwyol y cynnig y dylai Dosbarth Cwm Rhymni ffurfio etholaeth ar wahân gan y byddai nifer yr etholwyr ymhell uwchlaw'r cwota etholiadol ac am na welai unrhyw gysylltiadau lleol na ffactorau eraill o ddigon o gryfder i orbwysu'r ystyriaeth honno. Credai fod cysylltiadau cryf rhwng ward 4 yn Nosbarth Cwm Rhymni (Aberbargod) a Bargod a chymdeithasau i'r de, ac argymhellodd gynnwys y ward hon yn etholaeth Caerphilly. Fodd bynnag, cafodd nad oedd cysylltiadau o'r fath gan ward 5 yn Nosbarth Cwm Rhymni (Cwmsyfiog, Tredegar Newydd a Phillipstown), bod llawer llai o gefnogaeth dros ei throsglwyddo ac mai canlyniad hynny fyddai mwy o anghydbwysedd rhwng niferoedd yr etholwyr yn y ddwy etholaeth. Argymhellodd leoli'r ward hon yn etholaeth Merthyr Tydfil and Rhymney fel y cynigiwyd gennym.

118. Ni welodd y Comisiynydd cynorthwyol ddigon o gyfiawnhad dros wahanu ward 10 ym Mwrdeistref Merthyr Tudful (Y Faenor), at ddibenion seneddol, oddi wrth y sir a'r fwrdeistref y ffurfiar ran ohonynt. Cadarnhaodd ein cynnig y dylai fod yn rhan o etholaeth Merthyr Tydfil and Rhymney.

119. Cafwyd cryn wrthwynebiad i'n cynnig y dylai wardiau 7 ac 8 ym Mwrdeistref Merthyr Tudful (Merthyr Vale a Treharris) ffurfio rhan o etholaeth Aberdare. Cyflwynwyd dau wrthgynnig ar gyfer yr ardal hon ond fe'u gwrthodwyd gan y Comisiynydd cynorthwyol. Credai fod gan ward 7 (Merthyr Vale) ddiddordeb llethol mewn cael ei chyfuno â Merthyr Tudful, tra oedd y cysylltiadau rhwng ward 8 (Treharris) a Merthyr Tudful, er eu bod yn gryf, hytrach yn llai cryf. Argymhellodd, fodd bynnag, y dylai'r ddwy ward ffurfio rhan o etholaeth arfaethedig Merthyr Tydfil and Rhymney, er gwaethaf nifer isel yr etholwyr a geid o ganlyniad yn etholaeth Aberdare.

120. Argymhellodd ymhellach y dylai etholaeth Aberdare gael ei hail-enwi "Cynon Valley" ar ôl y dosbarth y rhannai'r un ffiniau ag ef. Sut bynnag, wedi ystyried natur yr etholaeth ac angen sicrhau cysondeb o fewn y sir, gwrthododd gais am i'r etholaeth gael ei phennu'n etholaeth fwrdeistref.

121. Credai y byddai cynnwys holl Fwrdeistref Taf-Elái yn etholaeth Pontypridd yn rhoi etholaeth â nifer rhy uchel o lawer o etholwyr. Oherwydd cysylltiadau daearyddol a lleol, fodd bynnag, gwelai y dylai ward 12 ym Mwrdeistref Taf-Elái (Tonyrefail) aros yn etholaeth arfaethedig Pontypridd ac na fyddai hyn yn pechu'n ormodol yn erbyn egwyddor sicrhau etholaethau â niferoedd lled gydradd o etholwyr.

122. Cafwyd cryn wrthwynebiad i egwyddor ffin yn rhedeg o'r dwyrain i'r gorllewin i rannu Bwrdeistref Ogwr fel a gynigiwyd gennym, er i rai sylwadau ein cefnogi. Dadleuwyd y dylid mabwysiadu ffin etholaeth o'r gogledd i'r de ac fe gyflwynwyd amryw o gynlluniau â hyn mewn golwg. Daeth y Comisiynydd cynorthwyol i'r casgliad bod cynnwys tref Pen-y-bont a'r cyffiniau mewn un etholaeth yn ystyriaeth bwysig a sylfaenol. Am y rheswm hwn, argymhellodd rannu Bwrdeistref Ogwr gan linell yn rhedeg o'r dwyrain i'r gorllewin. Fodd bynnag, argymhellodd hefyd y dylai ward 24 ym Mwrdeistref Ogwr (Llansanffraid-ar-Ogwr) gael ei throsglwyddo i etholaeth arfaethedig Ogmor er mwyn cydraddoli niferoedd yr etholwyr yn yr etholaethau dan sylw a chydymffurfio â'r ymdeimlad o undod rhwng Sarn ac Ynysawdre.

123. Cydnabyddem fod yr anghysonderau rhwng niferoedd yr etholwyr yn y gwahanol etholaethau a ddeuai yn sgîl argymhellion y Comisiynydd cynorthwyol yn anochel os oeddid i ystyried patrwm y cymoedd o fewn y sir. Penderfynwyd mabwysiadu'i argymhellion, wedi'u haddasu i roi cyfrif i effeithiau Cardiff (Communities) Order 1982, Cynon Valley (Communities) Order 1981, Islwyn (Communities) Order 1982 a Vale of Glamorgan (Communities) Order 1982, fel ein hargymhellion diwygiedig.

Dyma'n hargymhellion diwygiedig:

	<i>Etholwyr 1981</i>
Bridgend CC	53,154
Caerphilly CC	63,400
Cynon Valley CC	51,053
Merthyr Tydfil and Rhymney CC	59,981
Ogmore CC	51,951
Pontypridd CC	60,671
Rhondda CC	63,290

124. Cyflwynwyd sylwadau yn sgîl cyhoeddi'n hargymhellion diwygiedig. Ailadroddwyd y dylai'r Faenor aros mewn etholaeth a groesai'r ffin sirol â Phowys, ac y dylai Tredegar Newydd a Maesycwmer aros mewn etholaeth a groesai'r ffin sirol â Gwent. Rhosom ystyriaeth i'r sylwadau hyn ond ni welsom unrhyw gyfiawnhad yn y naill achos na'r llall dros beidio â chydymffurfio â Rheol 4. Ailgyflwynwyd cynnig, fel dewis arall, y dylid lleoli Tredegar Newydd yn etholaeth arfaethedig Caerphilly. Gwnaethom ystyried eto resymau'r Comisiynydd cynorthwyol dros wrthod yr awgrym hwn. Nodwyd, ped ildiem i'r cais hwn, yr effeithid ar gydbwysedd niferoedd yr etholwyr yn y ddwy etholaeth, ac nad oedd ond ychydig o gefnogaeth i'r cynnig. Penderfynwyd na ddylem newid ein cynigion a rôl'r ward dan sylw yn etholaeth Merthyr Tydfil and Rhymney.

125. Yr oedd y gwrthwynebiadau eraill yn ymwneud â'r cynnig i gynnwys rhan o Fwrdeistref Taf-Elái yn etholaeth Ogmored a'r cynnig i rannu Bwrdeistref Ogwr gan ffin o'r dwyrain i'r gorllewin.

126. Ailystyriwyd yn ofalus y gwrthwynebiadau i'r cynnig i gynnwys rhai neu'r cyfan o wardiau gorllewinol Bwrdeistref Taf-Elái yn etholaeth arfaethedig Ogmored. Fodd bynnag, byddai eu cynnwys oll yn etholaeth arfaethedig Pontypridd yn rhoi cynrychiolaeth annigonol iawn i'r etholaeth honno. Ni allem weld unrhyw gyfiawnhad dros wrthod casgliadau'r Comisiynydd cynorthwyol ynglŷn â wardiau unigol, ac felly gwnaethom gadarnhau'n cynigion.

127. Edrychwyd ar y gwrthwynebiadau pellach i'r ffin etholaeth a gynigiwyd gennym ym Mwrdeistref Ogwr, gan redeg o'r dwyrain i'r gorllewin, ond ni allem dderbyn effaith unrhyw ffin etholaeth o'r gogledd i'r de, sef rhannu Pen-y-bont a'r cyffiniau. Bu raid i ni wrthod cynnig newydd y dylai Bwrdeistref Ogwr ffurfio dwy etholaeth, a hynny oherwydd niferoedd isel yr etholwyr a olygai ac oherwydd i ni benderfynu'n barod yn erbyn etholaeth Pontypridd a rannai'r un ffiniau â Bwrdeistref Taf-Elái.

Argymhellwn fabwysiadu'n hargymhellion diwygiedig.

BRECON AND RADNOR CC

EBBW VALE CC

NEATH CC

MERTHYR
TYDFIL
BC

ABERDARE BC

BEDWELLTY
CC

RHONDDA
BC


CAERPHILLY
CC


ABERAVON
CC

OGMORE CC

PONTYPRIDD
CC

BARRY CC





DE MORGANNWG

128. Yr oedd yn ne Morgannwg 290,456 o etholwyr ym 1981, gan roi i'r sir hawl i bum sedd. Yr oedd ar y pryd bedair etholaeth gyfan a darnau o bump arall o fewn y sir.

129. Wrth ystyried ailddosbarthu seddi yn Ne Morgannwg, yr oeddem yn ymwybodol bod y Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol wedi cyflwyno Adroddiadau mewn cysylltiad ag Arolygon Cymdeithas Arbennig ar y ddau ddsbarth o fewn y sir. Gwnaeth Ysgrifennydd Gwladol Cymru benderfyniadau ar yr Adroddiadau hyn tua chanol 1980. Y cymdeithasau hyn (lle na chaent mo'u wardio) fyddai'r unedau sylfaenol ar gyfer ffurfio'r wardiau dosbarth newydd. Yng Nghaerdydd, yr oedd gwahaniaethau sylweddol rhwng y cymdeithasau newydd hyn a'r wardiau dosbarth a fodolai ar y pryd.

130. Achosai bryder i ni y gallai fod angen adolygiad mawr ar etholaethau Caerdydd pan gyflwynid ffiniau'r wardiau newydd ond, yng ngoleuni'r ansicrwydd ynglŷn ag amserlen eu cyflwyno, penderfynwyd bwrw ymlaen i ystyried y sir ar sail y wardiau presennol. Byddem wedyn yn gallu rhoi cyfrif i unrhyw newidiadau diweddarach os gwneid y Gorchmynion perthnasol mewn pryd.

131. Nodwyd bod 80,262 o etholwyr ym Mwrdeistref Bro Morgannwg yn ôl rhestr 1981. Yr oedd hyn dros 21,000 o etholwyr uwchlaw'r cwota etholiadol a thros 22,000 o etholwyr yn fwy na'r cyfartaledd ar gyfer holl seddi'r sir. O dan yr amgylchiadau hyn, yr oedd raid uno rhan o Fwrdeistref Bro Morgannwg â rhan o Ddinas Caerdydd i ffurfio un etholaeth, tra byddai gweddill y fwrdeistref honno'n ffurfio etholaeth arall.

Nodwyd bod y ddwy ward a ffurfiar Gymdeithas Penarth wedi'u cysylltu â Chaerdydd gan brif ffyrdd a thrafnidiaeth gyhoeddus, a'u bod hefyd wedi'u cysylltu â Chaerdydd o ran cyflogi, siopa a hamddena. Ffurfiar Penarth ran o etholaeth Cardiff South East cyn gweithredu ail adroddiad cyfnodol ein rhagflaenywyr.

132. Penderfynwyd y dylai Penarth uno ag etholaeth bresennol Cardiff South East y dylid ei diwygio hithau yn ei thro trwy beri iddi golli dwy ward yn y dwyrain, Rhifau 3 a 19 (Y Rhath a Thredelerch), ac ennill dwy ward o ganol Caerdydd, Rhifau 12 a 13 (Canol a Phlasnewydd). Cynigiwyd rhoi'r enw Cardiff South ar yr etholaeth hon.

133. Yr oedd siâp lethwith i ward 20 yn Ninas Caerdydd (Radur, Sain Ffagan a Thongwynlais) ac ystyriwyd a fyddai'n well ei lleoli yn etholaeth Cardiff West ar ôl ei helaethu. Daethom i gredu, fodd bynnag, fod nifer yr etholwyr yn etholaeth bresennol Cardiff West yn ddigon uchel, o ychydig, i ganiatáu iddi aros yn ddigyfnewid. Â 43,973 o etholwyr, yr oedd etholaeth bresennol Cardiff North West yn rhy fach a chynigiwyd ei helaethu trwy ychwanegu wardiau 20 ac 11 (Radur, Sain Ffagan, Tongwynlais a Cathays). Cynigiwyd y dylai gweddill Dinas Caerdydd ffurfio etholaeth Cardiff North East.

134. Penderfynwyd pennu etholaeth Bro Morgannwg yn etholaeth sirol (CC) a'r lleill yn etholaethau bwrdeistref (BC).

Dyma'n cynigion:

	<i>Etholwyr 1981</i>
Cardiff North East BC	55,342
Cardiff North West BC	58,020
Cardiff South BC	57,939
Cardiff West BC	53,316
Vale of Glamorgan CC	61,839

135. Yr oedd mwyafrif y sylwadau a dderbyniwyd gennym yn sgîl cyhoeddi'r argymhellion dros dro hyn yn gwrthwynebu naill ai cynnwys Penarth yn etholaeth Cardiff South neu ddefnyddio ffiniau'r wardiau presennol.

136. Fel y soniwyd yn gynharach, yr oeddem wedi bod yn cadw golwg ar gynnydd Arolygon y Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol. Er bod Ysgrifennydd Gwladol Cymru wedi cyhoeddi'i benderfyniadau ar yr Arolygon Cymdeithas o Gaerdydd a Bro Morgannwg, nid oedd yr adroddiadau terfynol mewn cysylltiad â'r Arolygon Etholiadol o'r dosbarthau hyn wedi'u cyflwyno eto i Ysgrifennydd Gwladol yr Adran Gartref. O dan yr amgylchiadau hyn, penderfynwyd gohirio'r ymchwiliad lleol i mewn i'r argymhellion dros dro ar gyfer y sir hon tan y byddem mewn gwell sefyllfa i farnu a wneid Gorchmynion yr Ysgrifennydd Cartref i weithredu ffiniau'r wardiau newydd mewn digon o bryd i ni gyhoeddi cynigion newydd.

137. Cyn gynted ag y crewyd wardiau newydd gan Borough of Vale of Glamorgan (Electoral Arrangements) Order 1982 a City of Cardiff (Electoral Arrangements) Order 1982, gwnaethom gyhoeddi argymhellion diwygiedig ar gyfer y sir, gan gadw mewn cof y sylwadau a dderbyniwyd gennym ar ein hargymhellion gwreiddiol.

138. Cadarnhawyd ein penderfyniad bod ym Mro Morgannwg nifer rhy uchel o lawer o etholwyr iddi ffurfio etholaeth ar wahân. Nodwyd y byddai'r manteision canlynol i'r cynnig i gynnwys ward Dinas Powys gyda Phenarth mewn etholaeth gyda rhan o Gaerdydd:

- bod cydberthynas rhwng Dinas Powys a Phenarth, a chysylltiadau da â Chaerdydd;
- gyda'i gilydd, y byddai Dinas Powys a Phenarth yn cyfrif am ran sylweddol o'r etholaeth arfaethedig ac y dylai hyn leddfu unrhyw ofnau y câi buddiannau'r ardaloedd dan sylw eu hanwybyddu; ac
- y byddai gweddill Bwrdeistref Bro Morgannwg yn ffurfio etholaeth y byddai nifer ei hetholwyr yn nes at y cyfartaledd o ystyried holl seddi'r sir, ac mai hon fyddai etholaeth fwyaf y sir o ran arwynebedd ond y leiaf o ran nifer ei hetholwyr.

139. Penderfynwyd diwygio etholaeth bresennol Cardiff West i ddilyn ffiniau ward Trelái a Chantwn, a'i hestyn i gynnwys ward Radur a Sain Ffagan. Diwygiwyd etholaeth bresennol Cardiff North West i ddilyn ffiniau'r wardiau newydd ac fe'i hestynnwyd i gynnwys ward Cyncoed. Cynigiwyd rhoi'r enw Cardiff North ar yr etholaeth hon.

140. Cynigiwyd y dylai wardiau dwyreiniol Caerdydd ffurfio etholaeth Cardiff East. Cawsom oherwydd siâp ward Llys-faen a Lloneirwg, ynghyd â dosbarthiad yr etholwyr a oedd ddwysaf yn y pennau dwyreiniol a gorllewinol, ei bod yn anochel torri'r cysylltiadau tua'r de pa etholaeth bynnag yr ymunai â hi. Yn unol â'n cynigion, câi ei lleoli yn etholaeth Cardiff East, gan ddiogelu cysylltiadau Llanedern a Lloneirwg ar draul cysylltiadau Llys-faen.

141. Credem mai doeth oedd osgoi etholaeth a ymestynai o Benarth i ffin ddwyreiniol Caerdydd ac, am y rheswm hwn, cynigiwyd na ddylai etholaeth Cardiff South and Penarth ymestyn ymhellach na genau Afon Rhymni.

142. Dyma'n cynigion:

	<i>Etholwyr 1981</i>
Cardiff East BC	57,340
Cardiff North BC	59,131
Cardiff South and Penarth BC	59,917
Cardiff West BC	58,857
Vale of Glamorgan CC	55,196

143. Golygai'r sylwadau a dderbyniwyd gennym ynglŷn â'n hargymhellion diwygiedig fod rhaid i ni gynnwys ymchwiliad lleol. Agorodd hwn yng Nghaerdydd ar 13eg Gorffennaf, 1982 a pharhaodd am 3½ diwrnod.

144. Yn ei adroddiad i ni, dywedodd y Comisiynydd cynorthwyol mai'r pynciau a grisialodd yn yr ymchwiliad oedd:

- a ddylai'n hargymhellion diwygiedig gael eu gweithredu'n llwyr neu yn rhannol;
- a ddylai'r gwrthgynnig a gyflwynwyd yn yr ymchwiliad gael ei weithredu'n llwyr neu yn rhannol; ac
- ymha etholaeth y dylid lleoli'r canlynol—
Radur a Sain Ffagan,
Dinas Powys,
Adamsdown, a
Phenarth.

145. Gwrthwynebid ein hargymhellion oherwydd y câi Llanrhymni, Tredelerch a Trowbridge eu rhannu oddi wrth dde'r ddinas, Cathays oddi wrth Blasnewydd a Llys-faen oddi wrth Lanishen. Cyflwynwyd un gwrthgynnig ar gyfer Dinas Caerdydd i roi cyfrif i'r ffactorau hyn. Cafodd y gwrthgynnig hwn lawer o gefnogaeth, er y beirniadwyd un o'i nodweddion, sef cynnwys Radur a Sain Ffagan yn etholaeth Cardiff North.

146. Fe'n cynghorodd y Comisiynydd cynorthwyol y dylid cynnwys ward Dinas Powys yn etholaeth arfaethedig Vale of Glamorgan ond fe'i cafodd yn dasg o'r fwyaf anodd i benderfynu a ddylai'r pedair ward o fewn ffiniau Cymdeithasau Llandochoau a Phenarth gael eu cynnwys yn un o etholaethau Caerdydd neu yn etholaeth Vale of Glamorgan. Yr oedd ein cynllun ni, yn ogystal â'r gwrthgynnig, wedi'u lleoli yn un o etholaethau Caerdydd.

147. Yr oedd y rhai a ddadleuai dros i Fwrdeistref Bro Morgannwg ffurfio etholaeth ar wahân yn cynnig cynyddu nifer etholwyr etholaeth Cardiff South a fyddai fel arall yn isel, trwy gynnwys ward Adamsdown. Cafwyd awgrym hefyd y dylid rhannu Bwrdeistref Bro Morgannwg rhwng dwy etholaeth gyfan a Dinas Caerdydd rhwng tair etholaeth gyfan. Gwrthodwyd yr awgrym hwn oherwydd yr anghydbwysedd eithafol a greai rhwng niferoedd yr etholwyr.

148. Ystyriodd y Comisiynydd cynorthwyol y gwrthwynebiadau yn erbyn cynnwys Penarth (a Llandochau) yn un o etholaethau Caerdydd. Cafodd fod yna gysylltiadau rhwng Penarth a Chaerdydd. Credai na fyddai trefniadau o'r fath yn effeithio'n andwyol ar y gydberthynas â Bro Morgannwg o ran llywodraeth leol, ac na fyddent ychwaith yn torri nac yn lleihau ar gysylltiadau lleol neu gymunedol. Daeth i'r casgliad y byddai etholaeth â thros 80,000 o etholwyr yn amlwg annheg ar bawb ac argymhellodd y dylai etholaethau Vale of Glamorgan a Cardiff South and Penarth fod fel yn y gwrthgynnig.

149. Gwrthododd y Comisiynydd cynorthwyol yr awgrym y dylid cynnwys ward Adamsdown yn etholaeth Cardiff South ac argymhellodd y dylai etholaeth Cardiff Central fod fel yn y gwrthgynnig.

150. Ystyriodd y dadleuon ynglŷn â ward Radur a Sain Ffagan a chafodd fod y ward, yn ddaearyddol ac o ran cysylltiadau, yn dwyn perthynas â gweddill etholaeth Cardiff West. Yr oedd rhwystr i'r dwyrain a wahanai'r ward oddi wrth Dongwynlais a gweddill etholaeth Cardiff North—etholaeth a ymestynnai yn y gwrthgynnig hyd at ochr ddwyreiniol Dinas Caerdydd. Daeth i'r casgliad y dylai etholaeth Cardiff West gynnwys y ward hon fel y cynigiwyd gennym ni. Yna, dylai etholaeth Cardiff North fod fel yn y gwrthgynnig, ond heb ward Radur a Sain Ffagan.

151. Rhoesom ystyriaeth i argymhellion y Comisiynydd cynorthwyol a'r sylwadau a gyflwynwyd. Gwnaethom nodi y byddai etholaeth Vale of Glamorgan fel a gynigiwyd yn wreiddiol gennym. Byddai iddi nifer fawr o etholwyr ond ni fyddai hon yn ormodol.

Arhosai etholaeth Cardiff West fel yn ein hargymhellion diwygiedig ond cynhwysai etholaeth Cardiff South and Penarth wardiau dwyreiniol Caerdydd yn lle wardiau'r canol fel y cynigiwyd gennym ni. Nodwyd, fodd bynnag, y buasai cefnogaeth gref dros i holl ardaloedd Caerdydd ar hyd yr arfordir gael eu cynnwys yn yr un etholaeth ac nid oedd neb wedi beirniadu'r etholaeth honno ar y sail y byddai'n ymestyn o Benarth i ffin ddwyreiniol Caerdydd.

152. Nodwyd y byddai etholaeth Cardiff North yn cynnwys ward Llys-faen a Llaneirwg. Er y cydnabyddai hyn gysylltiadau Llys-faen a Llanishen, fe gâi ardal Llaneirwg ei hynysu oddi wrth weddill yr etholaeth; ymddangosai, sut bynnag, nad oedd y nodwedd hon wedi ysgogi unrhyw feirniadaeth yn yr ymchwiliad.

153. Penderfynwyd mabwysiadu argymhellion y Comisiynydd cynorthwyol fel ein hargymhellion addasedig.

Addaswyd ein hargymhellion ar gyfer y sir fel a ganlyn:


	<i>Etholwyr 1981</i>
Cardiff Central BC	55,683
Cardiff North BC	53,467
Cardiff South and Penarth BC	60,621
Cardiff West BC	58,857
Vale of Glamorgan CC	61,813

154. Yr oedd y sylwadau a dderbyniwyd gennym yn sgîl cyhoeddi'n hargymhellion addasedig yn gwrthwynebu naill ai'r cynnig i gynnwys ward Radur a Sain Ffagan yn etholaeth Cardiff West neu'r cynnig i hepgor Penarth a Llandochau o etholaeth Vale of Glamorgan.


155. Ailystyriwyd y ddwy ardal hyn. Cytunem â rhesymau'r Comisiynydd cynorthwyol dros gynnwys ward Radur a Sain Ffagan yn etholaeth Cardiff West. Trwy gydol ein pwyso a mesur, daliasem fod gormod o etholwyr ym Mwrdeistref Bro Morgannwg iddi ffurfio etholaeth ac fe gadarnhawyd na ellid cyfiawnhau etholaeth â chynrychiolaeth mor annigonol.

Argymhellwn fabwysiadu'n hargymhellion addasedig.

OGMORE CC




PONTYPRIDD CC



BARRY CC

CAERPHILLY CC



CARDIFF NORTH WEST BC


CARDIFF NORTH BC

CARDIFF WEST BC

CARDIFF SOUTH EAST BC

MONMOUTH CC





GORLLEWIN MORGANNWG

156. Ar sail nifer yr etholwyr yng Ngorllewin Morgannwg ym 1981, sef 282,284, yr oedd gan y sir hawl i bum sedd. Ceir ar hyn o bryd dair etholaeth a gynhwysir yn gyfan gwbl o fewn y sir a darnau helaethaf dwy arall.

157. Nodwyd bod y darnau o etholaethau Aberavon a Neath a ddeuai o fewn y sir yn cynnwys 42,287 a 51,867 o etholwyr. Yr oedd y ddwy nifer hyn ymhell islaw'r cwota etholiadol ac yr oedd yn amlwg na allent ffurfio dwy etholaeth gyfan heb achosi anghysondeb gormodol o gymharu â niferoedd yr etholwyr mewn etholaethau eraill. Yr oedd etholaeth Gower (59,792) o faint addas iddi aros heb ei newid ond yr oedd nifer yr etholwyr yn etholaeth gyfagos Swansea West (66,826) yn rhy uchel iddi hithau aros yn ddigyfnewid.

158. Â 142,210 o etholwyr, yr oedd yn amlwg bod Dinas Abertawe yn rhy fawr i ffurfio dwy etholaeth ac yn rhy fach i ffurfio tair, tra oedd niferoedd yr etholwyr ym Mwrdeistref Afan (42,289), Bwrdeistref Dyffryn Lliw (45,918) a Bwrdeistref Nedd (51,867) yn rhy isel bob un i ganiatáu i'r dosbarthau hynny ffurfio etholaethau ar wahân.

159. Daethom i'r casgliad y dylid diwygio ffiniau'r etholaethau presennol i wneud niferoedd eu hetholwyr yn fwy cydradd.

160. Nodwyd bod y darn o etholaeth bresennol Aberavon a ddeuai o fewn y sir wedi'i leoli o fewn ffiniau Bwrdeistref Afan a phenderfynwyd estyn y darn hwn i gynnwys wardiau 3 a 6 (Llansawel a Choed-ffranc), ar y pryd ym Mwrdeistref Nedd. Mae gan y wardiau deheuol hyn ym Mwrdeistref Nedd gydberthynas a chysylltiadau da â darn deheuol Bwrdeistref Afan. Credem, beth bynnag, fod daearyddiaeth yr ardal yn rhwystro posiblwydd unrhyw ehangu tua'r gogledd.

161. Estynnwyd gweddill etholaeth Neath o fewn y sir i gynnwys wardiau 4, 7 ac 8 (Cymdeithasau Cilybebyll, Llan-giwg ac Ynysymwn), ar y pryd ym Mwrdeistref Dyffryn Lliw. Yr oedd y tair ward ddwyreiniol hyn wedi'u cysylltu â Chastell-nedd gan brif ffordd.

162. Cynhwysai gweddill etholaeth Gower rannau o Fwrdeistref Dyffryn Lliw ac ardaloedd Dinas Abertawe. Gwnaethom ei uno â ward 8 yn Ninas Abertawe (Y Mwmbwls). Dyma ward fwyaf deheuol etholaeth bresennol Swansea West ac ymddangosai fod ganddi ryw faint o dynfa tua phenrhyn Gŵyr.

163. Trosglwyddwyd ward 2 yn Ninas Abertawe (Castell) o etholaeth bresennol Swansea East i etholaeth Swansea West fel y byddai niferoedd yr etholwyr yn y ddwy etholaeth dan sylw mor agos â phosibl.

164. Rhoddwyd cyfrif yn ein hystyriaethau a'n cynigion i'r mân newidiadau i ffiniau dosbarthau a siroedd a ddaethai yn sgîl Afan (Communities) Order 1981.

165. Penderfynwyd peidio â newid dim ar enwau na theitlau'r etholaethau presennol.

Dyma'r etholaethau a gynigiwyd, eu teitlau a niferoedd eu hetholwyr:

	<i>Etholwyr 1981</i>
Swansea East BC	57,807
Swansea West BC	58,700
Aberavon CC	54,129
Gower CC	56,110
Neath CC	55,538

166. Yn wyneb y sylwadau a dderbyniwyd gennym ar ôl cyhoeddi'n hargymhellion dros dro, bu raid i ni gynnal ymchwiliad lleol. Agorodd yr ymchwiliad hwn yn Abertawe ar 26ain Ionawr, 1982 a pharhaodd am ddau ddiwrnod.

167. Yn ei adroddiad i ni, dywedodd y Comisiynydd cynorthwyol mai'r prif bwyntiau a godwyd yn yr ymchwiliad oedd:

- cynnwys ward 8, Dinas Abertawe (Y Mwmbwls), yn etholaeth arfaethedig Gower;
- cynnwys tair o wardiau Bwrdeistref Dyffryn Lliw yn etholaeth arfaethedig Neath; a
- chynnwys ward 6, Bwrdeistref Nedd (Coed-ffranc), yn etholaeth arfaethedig Aberavon.

168. Cyflwynwyd dau wrthgynnig ac iddynt, fel prif nod, y bwriad o gadw'r Mwmbwls yn etholaeth Swansea West. Effeithiai'r gwrthgynigion hyn ar y tair etholaeth orllewinol a gynigiwyd gennym. Yn ei adroddiad, nodai'r Comisiynydd cynorthwyol i un o'r gwrthgynigion dan sylw enbyn cryn wrthwynebiad; ni chawsai'r llall unrhyw gefnogaeth yn yr ymchwiliad ac yr oedd arwyddion i awgrymu y ceid gwrthwynebiad sylweddol iddo.

169. Yr oedd y rhai a wrthwynebai gynnwys tair o wardiau Bwrdeistref Dyffryn Lliw yn etholaeth arfaethedig Neath yn dadlau y dylid cadw etholaeth bresennol Gower yn ddigfnewid. Buasai hyn wedi rhoi lefel annerbyniol o anghysondeb rhwng niferoedd yr etholwyr yn y gwahanol etholaethau ac fe wnaed amryw o awgrymiadau i geisio osgoi sefyllfa o'r fath. Buasai un o'r rhain wedi golygu bod etholaeth yn croesi'r ffin sirol â Morgannwg Ganol ond ni welodd y Comisiynydd cynorthwyol unrhyw dystiolaeth a'i gwnâi'n ddymunol gwyro oddi wrth Reol 4. Dywedodd y byddai'r awgrymiadau a wnaed yn creu anghydwysedd sylweddol yn niferoedd yr etholwyr ac ni chyflwynwyd unrhyw wrthgynigion penodol pellach.

170. Cafodd y Comisiynydd cynorthwyol y byddai adfer Coed-ffranc i etholaeth Neath yn achosi anghysondeb annerbyniol rhwng nifer yr etholwyr yn yr etholaeth honno a'r nifer yn etholaeth Aberavon.

171. Daeth i'r casgliad nad oedd unrhyw gynllun ymarferol arall, yn lle'n cynigion ni, a fyddai'n debyg o fod yn fwy derbyniol gan yr etholwyr. Yr oedd yr etholaethau a gynigiwyd gennym wedi denu cryn gefnogaeth yn yr ardal ac argymhellodd y dylent sefyll heb eu newid. Gwnaethom dderbyn ei argymhellion.

172. Nodwyd gennym, fodd bynnag, mai un o effeithiau Cynon Valley (Communities) Order 1981 fuasai newid y ffin sirol rhwng Gorllewin Morgannwg (Bwrdeistref Nedd) a Morgannwg Ganol (Bwrdeistref Cwm Cynon). O ganlyniad, yr oedd Bwrdeistref Nedd wedi cynyddu o 140 o etholwyr. Penderfynwyd cyhoeddi argymhellion diwygiedig ar gyfer etholaeth Neath er mwyn dilyn y ffin sirol newydd.


173. Dyma'n hargymhellion diwygiedig ar gyfer yr etholaeth hon:

	<i>Etholwyr 1981</i>
Neath CC	55,678

174. Yr oedd y sylwadau a dderbyniwyd gennym yn sgîl cyhoeddi'n hargymhellion diwygiedig yn ailadrodd y gwrthwynebiad i'r cynnig i gynnwys tair o wardiau Bwrdeistref Dyffryn Lliw yn etholaeth Neath, gan alw am i etholaeth bresennol Gower gael ei chadw. Cydnabyddem gryfder y teimlad yn erbyn ein hargymhellion yn ôl fel yr effeithient ar ogledd Cwm Tawe. Fodd bynnag, ni allem gydymffurfio â'r gwrthwynebiadau hyn heb greu anghydwysedd annerbyniol rhwng niferoedd yr etholwyr yn yr amrywiol etholaethau. Ystyriwyd yr holl sylwadau a thrafodion yr ymchwiliad lleol ond cafwyd nad oedd unrhyw awgrym arall wedi ateb y diffyg sylfaenol hwn. O dan yr amgylchiadau hyn, penderfynwyd cadw at ein hargymhellion diwygiedig.

Argymhellwn fabwysiadu'n hargymhellion diwygiedig fel a ganlyn:

	<i>Etholwyr 1981</i>
Swansea East BC	57,807
Swansea West BC	58,700
Aberavon CC	54,129
Gower CC	56,110
Neath CC	55,678




GOWER CC

NEATH CC

SWANSEA EAST BC

SWANSEA WEST BC

ABERAVON CC



GWENT A PHOWYS

175. Fel yr eglurwyd ym mharagraff 34, gwnaethom benderfynu uno siroedd Gwent a Phowys i ddarparu saith etholaeth. Yr oedd ar y pryd dair etholaeth gyfan a darnau o bedair arall yn sir Gwent, ac ym Mhowys un etholaeth gyfan a'r darn helaethaf o un arall. Anochel oedd gwneud newidiadau helaeth i ffiniau'r etholaethau.

176. Yr oedd wyth dosbarth o fewn yr ardal unedig, a niferoedd eu hetholwyr yn amrywio o 17,000 i 97,000. Anochel hefyd, felly, fyddai rhannu dosbarthau rhwng etholaethau er mwyn sicrhau etholaethau â niferoedd lled gydradd o etholwyr.

177. Nifer yr etholwyr i bob sedd, ar gyfartaledd, yn y siroedd unedig oedd 58,873 ac, yng ngoleuni hyn, bu Bwrdeistref Islwyn a Bwrdeistref Torfaen yn broblemau arbennig. A 50,372 o etholwyr, ymddangosai Islwyn braidd yn rhy fach i fod â sedd iddi'i hun. Pe'i cyfunid â'r dosbarth arall yn yr un grŵp o gymoedd (Bwrdeistref Blaenau Gwent) i roi dwy sedd o ryw 55,000 o etholwyr yr un, byddai nifer yr etholwyr yn addas (a bwrw y gallesid fod wedi pennu llinell rannu dderbyniol) ond arhosai problem Torfaen heb ei datrys—o dan yr amgylchiadau hyn, â 67,303 o etholwyr, yr oedd Torfaen yn rhy fawr i ffurfio etholaeth ynddi'i hun. Fel mater o ffaith, cawsom broblem Cymoedd Gwent yn un o'r rhai anhawsaf y bu raid i ni ddelio â hwy, ac ni phenderfynwyd ar ein hargymhellion dros dro ond ar ôl ystyried rhestr hir o bosibiliadau.

178. Yr oedd etholaeth Powys North fel y'i cynigid gennym yn cynnwys Dosbarthau Trefaldwyn a Maesyfed, ynghyd â chwe ward ogleddol Bwrdeistref Brycheiniog a ymgorfforai Lanfair-ym-Muallt a Llanwrtyd. Yr oedd ffin ddeheuol dda i'r etholaeth arfaethedig hon ac ynddi nifer o etholwyr a oedd yn agos at y cwota etholiadol. Yr oedd gweddill Bwrdeistref Brycheiniog ac wyth o wardiau Dosbarth Trefynwy, gan gynnwys y Fenni, yn ffurfio etholaeth Abergavenny and Brecon fel y'i cynigid gennym, ynghyd â wardiau 18 a 19 ym Mwrdeistref Blaenau Gwent (Cymdeithas Llanelli) a wardiau 1 a 7 ym Mwrdeistref Torfaen (Blaenafon ac Abersychan). Deuai gweddill Bwrdeistref Blaenau Gwent yn etholaeth Blaenau Gwent.

179. Unid Torfaen Ganol (Pont-y-pŵl) â rhan fwyaf Islwyn. Er mai canlyniad hyn oedd rhannu Torfaen rhwng tair etholaeth, yr oedd Blaenafon, Pont-y-pŵl a Chwmbrân yn gymdeithasau ar wahân a buasant yn ddosbarthau trefol ar wahân cyn 1974. Er bod Islwyn a Phont-y-pŵl mewn cymoedd gwahanol, fe'u cysylltid gan brif ffordd yr A472 ac felly nid oedd teithio'n anodd.

180. Yr oedd sedd arfaethedig Gwent East yn cyfuno chwe ward ddeheuol Bwrdeistref Torfaen (Cwmbrân) â phymtheg o wardiau Dosbarth Trefynwy (Cas-gwent, Trefynwy a Brynbuga). Gostyngid nifer uchel yr etholwyr yn etholaeth bresennol Newport trwy gyfuno wardiau Bwrdeistref Casnewydd i'r gorllewin o Afon Wysg â wardiau 11 a 13 ym Mwrdeistref Islwyn (Rhisga Ganol a De Rhisga) i ffurfio etholaeth Newport West, gan roi gweddill Bwrdeistref Casnewydd gyda wardiau 14 i 17, Dosbarth Trefynwy (gan gynnwys Caldicot), a oedd i'r dwyrain o Gasnewydd, yn etholaeth Newport East.

181. Penderfynwyd pennu pob un o'r etholaethau yn etholaeth sirol (CC). Dyma'r etholaethau a gynigiwyd, ynghyd â niferoedd eu hetholwyr:

	<i>Etholwyr 1981</i>
Abergavenny and Brecon CC	57,832
Blaenau Gwent CC	57,218
Gwent East CC	57,748
Islwyn and Pontypool CC	63,411
Newport East CC	60,087
Newport West CC	57,931
Powys North CC	57,877

182. Cafwyd nifer fawr iawn o sylwadau yn erbyn ein cynigion, o bob rhan o'r ddwy sir. Gwrthwynebai'r mwyafrif ohonynt ein cynigion fel yr effeithient ar Fwrdeistref Torfaen. Yr oedd yn amlwg i hysbysiad a roddwyd gan y Cyngor Bwrdeistref yn y papurau newydd, ynghyd â threfniadau a wnaethpwyd ganddynt i ddosbarthu taflenni'n lleol, fod yn ffactorau pwysig mewn ysgogi ymateb mor gryf yn yr ardal hon.

183. Yr oedd yn ofynnol i ni gynnal ymchwiliad lleol. Bu raid gohirio'r trefniadau gwreiddiol ar gyfer cynnal yr ymchwiliad ym mis Ionawr 1982 oherwydd y tywydd garw iawn, ond fe agorodd yn Llandrindod, Powys, ar 2 Mawrth, 1982, gan barhau am 2 ddiwrnod. Yna, fe barhaodd yng Nghwmbrân, Gwent, ar 4ydd Mawrth, 1982, gan ymestyn dros 6 diwrnod pellach.

184. Y brif ddadl yn yr ymchwiliad lleol oedd a ddylid uno Powys a Gwent at ddibenion neilltuo saith etholaeth y byddai un ohonynt yn croesi'r ffin rhwng y siroedd. Unwaith y bodlonid y ddadl hon, arhosai'r cwestiwn o ffurfio etholaethau ym Mhowys a Gwent. Cafodd y materion hyn ac eraill a gododd yn eu sgîl eu dadansoddi a'u trafod yn fanwl iawn.

185. Daeth y Comisiynydd cynorthwyol i'r casgliad y dylai fod dwy etholaeth ym Mhowys a chwech yng Ngwent. Ar sail y casgliad hwn a gwrthwynebiadau eraill, fe'i hysgogwyd i lunio argymhellion a wahaniaethai'n fawr o'n cynllun dros dro.

186. Gwnaethom dderbyn i ni asesu'n rhy isel anfanteision ein cynllun dros dro ar gyfer uno'r ddwy sir, a bod rhesymau cryf iawn wedi'u cyfleu yn yr ymchwiliad ac wedi'u nodi yn adroddiad y Comisiynydd cynorthwyol dros wahanu Gwent a Phowys. Os oedd Powys i fod ar wahân, ymddangosai'n amlwg y dylid neilltuo iddi ddwy etholaeth. O sicrhau dosbarthiad felly, nodwyd y byddai nifer yr etholwyr ar gyfer pob sedd ar gyfartaledd yn nes at y cwota etholiadol na phe neilltuid un sedd, gan droi'r hawl ddamcaniaethol i lawr i'r ffigur gron agosaf. Ystyriaethau daearyddol oedd y ffactor a dorrodd y ddadl: gyda dwy etholaeth, gallai'n cynigion roi llawer mwy o sylw i siâp a hygyrchedd y sir, ac fe leiheid arwynebedd yr etholaeth fwyaf a gynigiwyd gennym.

187. Nodwyd i'r Comisiynydd cynorthwyol argymell mai'r ddwy etholaeth ym Mhowys ddylai fod etholaeth bresennol Montgomery a'r darn hwnnw o etholaeth Brecon and Radnor a ddeuai o fewn sir Powys. Yr oedd yr argymhellion hyn yn cydnabod nodweddion gwahanol a chysylltiadau presennol yr etholaethau sydd mewn bod ar hyn o bryd ac, o dan yr holl amgylchiadau, gwnaethom benderfynu eu mabwysiadu fel ein hargymhellion diwygiedig ar gyfer Powys, os gwneid y newidiadau angenrheidiol yn etholaeth arfaethedig Brecon and Radnor er mwyn rhoi cyfrif i effeithiau Cynon Valley (Communities) Order 1981.

188. Rhagwelsem y byddai dileu patrwm traddodiadol y cymoedd yng Ngwent yn creu cynnen ymhlith y cyhoedd ond fe'n darbwyllwyd gan gryfder yr ymateb y byddai angen dull gweithredu arall yn y sir.

189. Golygai'r penderfyniad i neilltuo dwy sedd ar gyfer Powys mai chwe sedd a geid yng Ngwent, a daeth hyn â nifer yr etholwyr ar gyfartaledd i bob sedd yng Ngwent i lawr o 58,873 i 54,648. Golygai hyn yn ei dro fod nifer yr etholwyr ym Mwrdeistref Islwyn yn foddhaol iddi ffurfio etholaeth ynddi'i hun, gan ei gwneud yn bosibl lleoli'r rhan helaethaf o Fwrdeistref Torfaen mewn un etholaeth yn lle ei rhannu rhwng tair.

190. O neilltuo chwe sedd i Went, yn lle rhannu saith â Phowys, yr oedd yn haws dilyn patrwm y cymoedd. Cawsom gymorth mawr o'r cynlluniau gofalus a gyflwynwyd yn yr ymchwiliad lleol ac o argymhellion y Comisiynydd cynorthwyol a gydwedda'i'n agos â'r cymoedd ac ardaloedd yr awdurdodau lleol; yr oedd Casnewydd wedi'i rhannu'n rhesymegol ar hyd Afon Wysg, fel yn ein cynigion; ac yr oedd etholaeth arfaethedig Blaenau Gwent fel y'i hargymhellwyd yn wreiddiol gennym.

191. Yr oedd gennym amheuon ynglŷn â rhannu Tref Newydd Cwmbrân rhwng dwy etholaeth, ond credem fod rhaid rhannu Bwrdeistref Torfaen a chydabyddem fod y gwahaniad arfaethedig yn dilyn ffin etholaethol a fodolai ar y pryd.

192. Derbyniwyd argymhellion y Comisiynydd cynorthwyol ar gyfer chwe sedd yng Ngwent, o'i addasu i roi cyfrif i Cardiff (Communities) Order 1982 ac Islwyn (Communities) Order 1982, fel ein hargymhellion diwygiedig.

193. Dyma'n hargymhellion diwygiedig:

GWENT

	<i>Etholwyr 1981</i>
Blaenau Gwent CC	56,952
Islwyn CC	50,372
Monmouth CC	53,131
Newport East CC	55,166
Newport West CC	53,640
Torfaen CC	58,630

POWYS

Brecon and Radnor CC	46,800
Montgomery CC	37,421

GWENT

194. Cyflwynwyd sylwadau yn sgîl cyhoeddi'n hargymhellion diwygiedig. Yr oedd ychydig o'r rhain yn cefnogi'n hargymhellion diwygiedig, yn llwyr neu yn rhannol, ac nid anghytunai neb â'r cynnig i neilltuo chwe etholaeth ar gyfer Gwent. Nid oedd unrhyw wrthwynebiadau i'r cynnig i barchu ffin sirol Gwent/Powys ond daliai rhai sylwadau i bwysu am etholaeth a groesai'r ffin sirol â Morgannwg Ganol.

195. Yr oedd mwyafrif y sylwadau a wrthwynebai'n hargymhellion diwygiedig yn awgrymu mân newidiadau i'r ffiniau a gynigiwyd rhwng etholaethau Blaenau Gwent/Monmouth a Monmouth/Newport East. Awgrymid hefyd fân newidiadau i'r ffiniau a gynigiwyd rhwng etholaethau Monmouth/Newport West, Monmouth/Torfaen ac Islwyn/Newport West. Rhoesom ystyriaeth iddynt oll. Rhoddwyd ystyriaeth bellach gennym hefyd i'r gwrthgynigion a alwai am i ddarn o Forgannwg Ganol barhau i gael ei gynnwys yn un o etholaethau Gwent, ond daethom i'r casgliad na fyddai'r amgylchiadau'n cyfiawnhau gwyrto oddi wrth Reol 4.

196. Yr oedd cefnogaeth helaeth, a dim gwrthwynebiad amlwg, i'r gwrthgynnig i drosglwyddo wardiau 16 a 17 yn Nosbarth Trefynwy (Cymdeithasau Caer-went, Matharn a Phorth Sgiwed) o etholaeth arfaethedig Newport East i etholaeth arfaethedig Monmouth. Nodwyd nad oedd y Comisiynydd cynorthwyol wedi gwrthod y gwrthgynnig hwn yn benodol, er mai ei ganlyniad fyddai creu etholaeth â darn datgysylltiedig ond cyfagos. Penderfynwyd, felly, na ddylem addasu'n hargymhellion diwygiedig ond i gynnwys y ddwy ward dan sylw yn eu cyfanrwydd o fewn etholaeth arfaethedig Monmouth. Dyma'n hargymhellion addasedig:

	<i>Etholwyr 1981</i>
Monmouth CC	55,943
Newport East CC	52,354

197. Derbyniwyd ychydig o sylwadau yn sgîl cyhoeddi'n hargymhellion addasedig.

198. Daliai un ohebiaeth i bwysu am drosglwyddo ward 13, Bwrdeistref Torfaen (Llanfrechfa Isaf), o etholaeth arfaethedig Monmouth i etholaeth arfaethedig Newport West. Ailystyriwyd y gwrthgynnig hwn ond nodwyd y creai gryn anghydbwysedd rhwng niferoedd yr etholwyr yn yr etholaethau perthnasol. Dywedsai'r Comisiynydd cynorthwyol y lleolid y ward hon yn fwyaf cyfleus a rhesymol yn etholaeth Monmouth, a chawsai'r argymhelliad ei gefnogi'n gynharach gan ddeiseb oddi wrth 85 o drigolion y ward. Ymhellach, ffurfiai ran o etholaeth bresennol Monmouth. Penderfynwyd peidio â newid ein hargymhellion.

199. Ailadroddid y gwrthwynebiad i'r cynnig i gynnwys wardiau 19 a 20, Bwrdeistref Blaenau Gwent (Cymdeithas Llanelli), yn etholaeth Monmouth, er y derbyniwyd gohebiaeth hefyd yn cefnogi'r cynnig hwn. Yr oedd yn amlwg o hyn a sylwadau cynharach na cheid unrhyw unfrydedd ynglŷn â'r mater. Edrychwyd eto ar resymau'r Comisiynydd cynorthwyol dros gynnwys y ddwy ward dan sylw yn etholaeth arfaethedig Monmouth a daethom i'r casgliad na ddylid newid dim ar ein hargymhellion.

200. Mynegai un ohebiaeth foddhad ynglŷn â'n hargymhellion addasedig ond gwrthwynebai gynnwys yn etholaeth Monmouth ddarn datgysylltiedig Cymdeithas Caer-went (rhan o ward 16, Dosbarth Trefynwy) am y byddai'r ardal hon wedi'i hamgylchynu bron yn llwyr gan etholaeth Newport East. Yr oedd rhai o'r sylwadau a barodd i ni addasu'n cynigion wedi awgrymu'n benodol gynnwys yr ardal hon yn etholaeth Newport East, gan ystyried y gallai'r anghysondeb a greid o ganlyniad, sef rhannu ward rhwng etholaethau, gael ei unioni pan weithredid arolygon y Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol. Nodwyd y cafwyd sylwadau, gan gynnwys rhai oddi mewn i ardal Caer-went Ddatgysylltiedig, yn cefnogi ymgorffori'r ward gyfan yn etholaeth arfaethedig Monmouth. Ni allem gytuno i ward gael ei rhannu rhwng etholaethau, nac ychwaith achub y blaen ar newidiadau mewn ffiniau llywodraeth leol. Er y golygai hyn y byddai etholaeth Monmouth â darn datgysylltiedig, byddai'r darn hwnnw'n gyfagos. Teimlem fod yr ateb hwn yn llawer mwy boddhaol ac yn un a gydymffurfiai â dymuniadau lleol. Cadarnhawyd y dylai'n hargymhellion addasedig sefyll.

Argymhellwn fabwysiadu'n hargymhellion addasedig fel a ganlyn:


	<i>Etholwyr 1981</i>
Blaenau Gwent CC	56,952
Islwyn CC	50,372
Monmouth CC	55,943
Newport East CC	52,354
Newport West CC	53,640
Torfaen CC	58,630


POWYS

201. Derbyniwyd nifer o sylwadau yn sgîl cyhoeddi'n hargymhellion diwygiedig. Yr oedd mwyafrif y rhain yn cefnogi'r argymhellion diwygiedig. Ceid dau wrthwynebiad i etholaeth Brecon and Radnor fel y'i cynigiwyd gennym, un ohonynt yn dadlau i'r cwota etholiadol gael ei anghofio ac y dylai'r etholaeth barhau i gynnwys y darnau hynny sydd ar hyn o bryd yn siroedd Gwent a Morgannwg Ganol. Gwrthwynebai gohebiaeth arall neilltuo dwy sedd i Bowys heb ostyngiad cyfatebol yn y gynrychiolaeth mewn manau eraill yng Nghymru.

202. Canlyniad anochel neilltuo dwy sedd i'r sir fyddai i niferoedd eu hetholwyr fod yn brin o'r cwota etholiadol. Adolygwyd y sefyllfa ond ni welsom unrhyw gyfiawnhad dros newid ein hargymhellion diwygiedig.


Argymhellwn, felly, fabwysiadu'n hargymhellion diwygiedig.





MONTGOMERY CC

BRECON AND RADNOR CC



MONTGOMERY

MONTGOMERY CC

POWYS

RADNOR

BRECON AND RADNOR CC

BRECKNOCK

EFFEITHIAU'R ARGYMHELLION

203. Ceir yn Atodlen G restr o'r etholaethau a argymhellir gennym bellach (yn ôl trefn niferoedd eu hetholwyr). Rhestrir eu cyfansoddiad, ynghyd â niferoedd eu hetholwyr ym 1981 a 1982, yn Atodlen H.

Nifer yr etholaethau

204. Adolygwyd ein dosbarthiad o etholaethau yng Ngwynedd a Phowys ac yr ydym wedi argymell, felly, gynnyddu nifer etholaethau Cymru o'r 36 presennol i 38.

205 Mae'n ofynnol yn gyntaf oll i ni bennu'r cwota etholiadol ar sail nifer bresennol yr etholaethau ac argymell etholaethau y bydd niferoedd yr etholwyr ynddynt yn agos at y cwota etholiadol hwnnw. Caniateir i ni ryddid, fodd bynnag, i wyro oddi wrth y gofyniad hwn os oes ystyriaethau daearyddol arbennig. Ar ôl cynnal ymchwiliadau lleol i mewn i'n hargymhellion dros dro, yr oeddem yn argyhoeddedig y dylid, o ran effaith, neilltuo sedd ychwanegol ymhob un o ddwy sir, Gwynedd a Phowys, oherwydd ystyriaethau daearyddol arbennig ac, yn hanes Powys, gan fod gwrthwynebiad cryf i groesi'r ffin sirol. Ystyriwyd, felly, a ddylem ostwng nifer y seddi a neilltuid ar gyfer un neu ragor o'r siroedd eraill. Daethom i'r casgliad, sut bynnag, na allem gyfiawnhau gostwng y gynrychiolaeth yr oedd gan y siroedd eraill hynny hawl iddi oherwydd, ymhlith rhesymau eraill, byddai'n anochel bod unrhyw sir y gwneid gostyngiad o'r fath ynddi yn cynnwys o leiaf un etholaeth y byddai nifer ei hetholwyr yn rhy fawr i fod "mor agos ag sy'n ymarferol at y cwota etholiadol" ac na ellid cyfiawnhau ei maint ar sail unrhyw Reol arall.

206. Darpariaeth y gyntaf o'n Rheolau yw na ddylai Cymru fod â llai na 35 etholaeth. Dyma nifer yr etholaethau a'r cwota etholiadol ymhob rhan o Brydain Fawr ym 1981:

	<i>Nifer yr Etholaethau</i>	<i>Cwota Etholiadol</i>
Cymru	36	58,753
Yr Alban	71	54,725
Lloegr	516	67,961

207. Â 38 etholaeth, fe ostyngid y cwota etholiadol damcaniaethol yng Nghymru i 55,660 ar sail ffigurau 1981. Ymddengys yn debyg, fodd bynnag, yn sgîl eu harolygon cyffredinol cyfredol, y bydd Comisiynau Lloegr a'r Alban yn argymell cynyddu nifer yr etholaethau yn y rhannau hynny o Brydain Fawr.

Maint yr Etholaethau

208. Argymhellwn etholaethau y mae niferoedd eu hetholwyr yn amrywio o ryw 30,000 i 67,000 ac y mae gan 33 o'r 38 ohonynt niferoedd sydd o fewn 15% i'r cwota etholiadol. Mae llai na 40,000 o etholwyr mewn dwy ohonynt (h.y. gwahaniaeth o dros 32% o gymharu â'r cwota etholiadol) ond mae hyn mewn ardaloedd lle y gwelsom ystyriaethau daearyddol arbennig.

209. Mae'r dadansoddiad hwn yn cymharu'n deg iawn â niferoedd yr etholwyr yn yr etholaethau presennol, sy'n amrywio o lai na 28,000 i fwy na 85,000; ceir pedair sydd â llai na 40,000 o etholwyr a thair â thros 80,000, a dim ond pymtheg sydd o fewn 15% i'r cwota etholiadol. Mae'r etholaethau a argymhellir gennym, felly, â niferoedd sy'n agosach o lawer at y cwota etholiadol.

Perthynas ag Etholaethau Presennol

210. O'u cymeradwyo, byddai tair o'r etholaethau yr un fath yn union â'r etholaethau presennol cyfatebol ac arhosai tair neu bedair arall (gan ddibynnu ar y meini prawf a fabwysiedir) i bob pwrpas heb eu newid.

Perthynas â Dosbarthau

211. Byddai saith etholaeth yn rhannu'r un ffiniau â dosbarthau a byddai deuddeg arall heb eu rhannu rhwng dosbarthau. Câi deunaw eu rhannu rhwng dau ddosbarth a byddai un (Clwyd South West) yn cynnwys y cyfan o un dosbarth a darnau o ddau arall.

212. I'r gwrthwyneb, byddai deunaw dosbarth heb eu rhannu rhwng etholaethau, câi un ar bymtheg eu rhannu rhwng dwy etholaeth, câi dwy (Abertawe a Wrecsam Maelor) eu rhannu rhwng tair etholaeth, a châi un (Caerdydd) ei rannu rhwng pedair etholaeth.

CYFFREDINOL

213. Gwnaethom olynu'r Gwir Anrhydeddus Arglwydd Ustus Watkins V.C., y Dirprwy Gadeirydd, y Cynol J. L. Corbett-Winder O.B.E., M.C. a Mr. J. G. Iles O.B.E. ym mis Gorffennaf 1980, a chynhaliwyd gennym nifer o gyfarfodydd yng Nghaerdydd a dau yn Llundain yn ystod y trydydd arolwg cyfnodol hwn. Bu'r paratodau a wnaethai'n rhagflaenwyr o gymorth mawr, gan ein galluogi i gyhoeddi'n cynigion cyntaf ar gyfer Cymru gyfan o fewn rhyw bedwar mis i roi hysbysiad ffurfiol am ein bwriad i gychwyn yr arolwg.

214. Yr ydym yn ddiolchgar hefyd am yr holl gymorth a roddwyd i ni gan ein haseswyr a'u staff. Heb eu help, buasai'n tasg wedi bod yn llawer anos.

215. Ein hysgrifenyddion oedd Mr. G. P. Barnes a weithredodd fel y cyfryw trwy gydol yr arolwg, ar y cyd â Miss M. D. Cook tan iddi ymddeol yn gynnar ym 1981 ac yna gyda Mr. A. N. Pickersgill. Cawsant gefnogaeth adran ysgrifenyddol fechan o dan arweiniad Miss M. C. Tyler a Mr. D. Hillman. Yr ydym yn ddiolchgar iddynt oll am y gwaith a wnaethant wrth baratoi deunydd i ni ei ystyried ac wrth drefnu'r dulliau gweithredu yr oedd raid eu dilyn.

216. Llywyddodd y Dirprwy Gadeirydd ein holl gyfarfodydd yn ystod yr arolwg, ond fel Cadeirydd i bob un o'r pedwar Comisiwn Ffiniau hysbyswyd Llefarydd Tŷ'r Cyffredin am bob cam o'n gwaith.

APPENDIX A
ATODLEN A

RULES FOR REDISTRIBUTION OF SEATS
RHEOLAU AR GYFER AILDDOSBARTHU SEDDI

(Second Schedule to the House of Commons
(Redistribution of Seats) Act, 1949, as amended)

(Yr Ail Atodiad i House of Commons
(Redistribution of Seats) Act, 1949, fel y'i diwygiwyd)

1. The number of constituencies in the several parts of the United Kingdom set out in the first column of the following table shall be as stated respectively in the second column of that table—

<i>Part of the United Kingdom</i>	<i>Number of Constituencies</i>
Great Britain	Not substantially greater or less than 613.
Scotland	Not less than 71.
Wales	Not less than 35.
Northern Ireland	Not greater than 18 or less than 16.

2. Every constituency shall return a single member.

3. There shall continue to be a constituency which shall include the whole of the City of London and the name of which shall refer to the City of London.

4. (1) So far as is practicable having regard to the foregoing rules—

(a) in England and Wales—

(i) no county or any part thereof shall be included in a constituency which includes the whole or part of any other county or the whole or part of a London borough;

(ii) (Repealed by Local Government Act 1972)

(iii) no London borough or any part thereof shall be included in a constituency which includes the whole or part of any other London borough);

(iv) (Repealed by Local Government Act 1972)

(b) in Scotland, regard shall be had to the boundaries of local authority areas;

(c) in Northern Ireland, no ward shall be included partly in one constituency and partly in another.

(2) In paragraph (1) of this rule the following expression has the following meaning, that is to say—

“county” means an administrative county.

“area” and “local authority” have the same meaning as in the Local Government (Scotland) Act 1973.

5. The electorate of any constituency shall be as near the electoral quota as is practicable having regard to the foregoing rules; and a Boundary Commission may depart from the strict application of the last foregoing rule if it appears to them that a departure is desirable to avoid an excessive disparity between the electorate of any constituency and the electoral quota, or between the electorate thereof and that of neighbouring constituencies in the part of the United Kingdom with which they are concerned.

6. A Boundary Commission may depart from the strict application of the last two foregoing rules if special geographical considerations, including in particular the size, shape and accessibility of a constituency, appear to them to render a departure desirable.

7. In the application of these rules to each of the several parts of the United Kingdom for which there is a Boundary Commission—

(a) the expression “electoral quota” means a number obtained by dividing the electorate for that part of the United Kingdom by the number of constituencies in it existing on the enumeration date;

- (b) the expression “electorate” means—
 - (i) in relation to a constituency, the number of persons whose names appear on the register of parliamentary electors in force on the enumeration date under the Representation of the People Acts for the constituency;
 - (ii) in relation to the part of the United Kingdom, the aggregate electorate as hereinbefore defined of all the constituencies therein;
- (c) the expression “enumeration date” means, in relation to any report of a Boundary Commission under this Act, the date on which the notice with respect to that report is published in accordance with section two of this Act.

House of Commons (Redistribution of Seats) Act, 1958 Section 2(2)

It shall not be the duty of a Boundary Commission, in discharging their functions under the said section two, to aim at giving full effect in all circumstances to the rules set out in the Second Schedule to the principal Act, but they shall take account, so far as they reasonably can, of the inconveniences attendant on alterations of constituencies other than alterations made for the purposes of rule 4 of those rules, and of any local ties which would be broken by such alterations; and references in that section to giving effect to those rules shall be construed accordingly.

APPENDIX B
ATODLEN B

THE EXISTING CONSTITUENCIES AND THEIR DIVISION BETWEEN COUNTIES AND DISTRICTS
YR ETHOLAETHAU PRESENNOL A'R FFORDD Y'U RHENNIR RHWNG SIROEDD A DOSBARTHAU

Constituency Etholaeth	County Sir	Districts Dosbarthau
<i>County Constituency</i>		
<i>Etholaeth Sirol</i>		
Aberavon	{ Mid Glamorgan West Glamorgan	Ogwr (pt) Afan (pt)
Abertillery	{ Gwent "	Blaenau Gwent (pt) Islwyn (pt)
Anglesey	Gwynedd	Ynys Môn—Isle of Anglesey
Barry	{ Mid Glamorgan " " South Glamorgan " "	Rhymney Valley (pt) Taff-Ely (pt) Cardiff (pt) Vale of Glamorgan (pt)
Bedwellty	{ Gwent Mid Glamorgan	Islwyn (pt) Rhymney Valley (pt)
Brecon and Radnor	{ Gwent Mid Glamorgan " " Powys "	Blaenau Gwent (pt) Cynon Valley (pt) Merthyr Tydfil (pt) Brecknock Radnor
Caernarvon	{ Gwynedd "	Arfon (pt) Dwyfor
Caerphilly	{ Mid Glamorgan " " " " South Glamorgan	Merthyr Tydfil (pt) Rhymney Valley (pt) Taff-Ely (pt) Cardiff (pt)
Cardigan	Dyfed	Ceredigion
Carmarthen	{ Dyfed " "	Carmarthen (pt) Dinefwr (pt) Llanelli (pt)
Conway	{ Gwynedd "	Aberconwy (pt) Arfon (pt)
Denbigh	{ Clwyd " " Gwynedd	Colwyn (pt) Glyndŵr (pt) Rhuddlan (pt) Aberconwy (pt)
East Flint	{ Clwyd " "	Alyn and Deeside Delyn (pt) Wrexham Maelor (pt)
Ebbw Vale	{ Gwent Mid Glamorgan	Blaenau Gwent (pt) Rhymney Valley (pt)
Gower	{ West Glamorgan " "	Lliw Valley Swansea (pt)
Llanelli	{ Dyfed "	Dinefwr (pt) Llanelli (pt)
Merioneth	{ Clwyd Gwynedd	Glyndŵr (pt) Meirionnydd

Constituency Etholaeth	County Sir	Districts Dosbarthau
<i>County Constituency contd</i>		
<i>Etholaeth Sirol parhad</i>		
Monmouth	{ Gwent " " " " " " South Glamorgan	Islwyn (pt) Monmouth Newport (pt) Torfaen (pt) Cardiff (pt)
Montgomery	Powys	Montgomery
Neath	{ Mid Glamorgan West Glamorgan " "	Cynon Valley (pt) Afan (pt) Neath (pt)
Ogmore	{ Mid Glamorgan South Glamorgan	Ogwr (pt) Vale of Glamorgan (pt)
Pembroke	{ Dyfed " " " "	Carmarthen (pt) Preseli South Pembrokeshire
Pontypool	{ Gwent " "	Islwyn (pt) Torfaen (pt)
Pontypridd	{ Mid Glamorgan " " South Glamorgan	Ogwr (pt) Taff-Ely (pt) Vale of Glamorgan (pt)
West Flint	{ Clwyd " " " "	Colwyn (pt) Delyn (pt) Rhuddlan (pt)
Wrexham	{ Clwyd " "	Glyndŵr (pt) Wrexham Maelor (pt)
<i>Borough Constituency</i>		
<i>Etholaeth Fwrdeistrefol</i>		
Aberdare	{ Mid Glamorgan " "	Cynon Valley (pt) Rhondda (pt)
Cardiff North	South Glamorgan	Cardiff (pt)
Cardiff North West	South Glamorgan	Cardiff (pt)
Cardiff South East	{ South Glamorgan " "	Cardiff (pt) Vale of Glamorgan (pt)
Cardiff West	{ South Glamorgan " "	Cardiff (pt) Vale of Glamorgan (pt)
Merthyr Tydfil	{ Mid Glamorgan " "	Cynon Valley (pt) Merthyr Tydfil (pt)
Newport	Gwent	Newport (pt)
Rhondda	Mid Glamorgan	Rhondda (pt)
Swansea East	West Glamorgan	Swansea (pt)
Swansea West	West Glamorgan	Swansea (pt)

APPENDIX C ATODLEN C

LIST OF EXISTING CONSTITUENCIES IN 1981 ELECTORATE SIZE ORDER

RHESTR YR ETHOLAETHAU PRESENNOL YNG NGORCHYMYN 1981 MEWN CYSYLLTIAD Â NIFEROEDD
ETHOLWYR

<i>Constituency</i>	<i>Electorate</i>	
<i>Etholaeth</i>	<i>Etholwyr</i>	
Monmouth CC	85,273	
Wrexham CC	81,990	
Pembroke CC	79,237	
Pontypridd CC	77,794	
Barry CC	77,786	
East Flint CC	77,091	
Newport BC	76,965	
Ogmore CC	72,720	
West Flint CC	70,843	
Denbigh CC	68,120	
		EQ + 15% (67,566)
<hr/>		
Swansea West BC	66,826	
Aberavon CC	65,904	
Llanelli CC	65,357	
Rhondda BC	63,283	
Carmarthen CC	62,913	
Swansea East BC	61,510	
Caerphilly CC	60,846	
18 Gower CC	59,792	
	58,753	ELECTORAL QUOTA CWOTA ETHOLIADOL
<hr/>		
Brecon and Radnor CC	58,695	
Pontypool CC	58,383	
Cardiff South East BC	55,036	
Cardiff West BC	53,316	
Neath CC	53,135	
Conway CC	52,218	
Bedwellty CC	51,332	
		EQ - 15% (49,940)
<hr/>		
Anglesey CC	49,793	
Cardiff North BC	48,171	
Aberdare BC	47,839	
Cardigan CC	47,542	
Cardiff North West BC	43,973	
Caernarvon CC	43,893	
Merthyr Tydfil BC	40,559	
Montgomery CC	37,421	
Ebbw Vale CC	36,302	
Abertillery CC	35,616	
36 Merioneth CC	27,619	

ATODLEN D

TESTUN Y LLYFRYN ESBONIADOL

YR AROLWG O ETHOLAETHAU SENEDDOL

1. Mae'n ofynnol yn ôl y gyfraith¹ i'r pedwar Comisiwn Ffiniau Seneddol (i Loegr, Yr Alban, Cymru a Gogledd Iwerddon) wneud arolwg cyson o'r etholaethau seneddol yn eu rhan hwy o'r Deyrnas Gyfunol.
2. Rhaid cyflwyno adroddiad arolwg cyffredinol nid llai na deng mlynedd na mwy na phymtheg ar ôl dyddiad yr adroddiad diwethaf. Cyflwynodd Comisiwn Cymru eu hadroddiad diwethaf² i'r Ysgrifennydd Cartref ar 19 Mai 1969 ac felly mae'n rhaid cyflwyno'r adroddiad nesaf cyn 19 Mai 1984. Mae'r Comisiwn wedi dechrau arolwg cyffredinol.

DULLIAU GWEITHREDU

Argymhellion Dros Dro

3. Bydd y Comisiwn yn llunio'u hargymhellion dros dro ar gyfer grŵp o etholaethau, fel arfer o fewn sir, ac yn cyhoeddi hysbysiad ynglŷn â'r argymhellion hynny.

Hysbysu

4. Mae'n ofynnol yn ôl y gyfraith i'r hysbysiad gael ei gyhoeddi mewn o leiaf un papur newydd sy'n cylchredeg ym mhob un o'r etholaethau yr effeithir arnynt. Rhaid i'r hysbysiad nodi rhyw le o fewn yr etholaeth lle y gellir archwilio manylion yr argymhellion. Bydd y Comisiwn yn ymgynghori â phrif awdurdodau lleol yr ardal er mwyn gwneud yn siŵr y caiff yr hysbysiadau eu harddangos yn y manau lle y bydd pobl yn fwyaf tebygol o'u gweld—fel arfer yn swyddfeydd cynghorau ac mewn llyfrgelloedd cyhoeddus. Fel y gall y cyhoedd ddeall effeithiau'r argymhellion yn llawn, rhoir mapiau manwl i'w harchwilio yn swyddfeydd y cynghorau, a'r mapiau hynny'n dangos yr argymhellion dan sylw, neu weithiau hefyd fe arddangosir mapiau amlinell syml mewn manau eraill o fewn etholaethau mewn ardaloedd gwledig; enwir y manau hyn yn benodol yn yr hysbysiad. Cyhoeddir hysbysiadau yn Saesneg ac yn Gymraeg.

Gwrthwynebiadau a Sylwadau

5. Fel sydd hefyd yn ofynnol yn ôl y gyfraith, mae'r hysbysiad yn nodi y gellir cyflwyno sylwadau i'r Comisiwn o fewn cyfnod o un mis ar ôl cyhoeddi'r hysbysiad ac mae'n rhaid i'r Comisiwn ystyried unrhyw sylwadau a gyflwynir yn unol â'r drefn hon.

Ymchwiliadau Lleol

6. Mae'n ofynnol i'r Comisiwn gynnal ymchwiliad lleol os derbynnir sylwadau'n gwrthwynebu'u hargymhellion dros dro oddi wrth awdurdod lleol â diddordeb (sef, yn ôl y diffiniad, y cyngor sir neu ddsbarth ar gyfer ardal yn gyfan gwbl neu'n rhannol o fewn yr etholaeth dan sylw) neu oddi wrth gorff o 100 neu ragor o etholwyr.
7. Cynhelir yr ymchwiliad lleol ar ran y Comisiwn gan Gomisiynydd cynorthwyol, un o banel a benodir at y diben gan yr Ysgrifennydd Cartref. Ni phennir unrhyw drefn statudol ar gyfer cynnal ymchwiliad lleol. Ei nod yw—

sicrhau gwybodaeth ynglŷn â'r farn leol,
gwrando beirniadaeth ar yr argymhellion dros dro a chymeradwyaeth iddynt,
derbyn gwrthgynigion a galluogi pawb a fydd yn bresennol yn y cyfarfod ac yn dymuno gwneud sylwadau ar y gwrthgynigion, yn ogystal ag ar gynigion y Comisiwn, i wneud hynny.

8. Ni chynrychiolir y Comisiwn yn yr ymchwiliad, er y gall un o staff Adran yr Ysgrifennydd fod yn bresennol fel sylwedydd yn unig. Gall y sawl sydd am fynegi barn wneud hynny'n bersonol neu drwy gynrychiolydd. Gall y rhai sy'n bresennol annerch y cyfarfod er na chyflwynwyd sylwadau ysgrifenedig at y Comisiwn ganddynt cyn hynny. Rhoir copïau o'r holl sylwadau ysgrifenedig a dderbynnir gan y Comisiwn o fewn y cyfnod priodol, yn swyddfeydd y cynghorau ym mhob etholaeth yr effeithir arni er mwyn i'r cyhoedd eu harchwilio a chael gwybod am y dewisiadau a awgrymwyd.

¹ Deddfau Tŷ'r Cyffredin (Ailddosbarthu Seddi) 1949 i 1979.

² Ail Adroddiad Cyfnodol (Gorch. 4086), argraffwyd gan Wasg Ei Mawrhydi.

9. Bydd y Comisiynydd cynorthwyol yn cyflwyno'i adroddiad yn uniongyrchol at y Comisiwn. Mae ganddo berffaith hawl yn yr adroddiad hwnnw i drafod y gwahanol wrthwynebiadau ac i awgrymu gwelliannau neu addasiadau i argymhellion cyhoeddedig y Comisiwn. Gall hyd yn oed gynnig trefniadau cwbl wahanol cyd â'u bod yn ymddangos iddo y byddent yn fwy derbyniol yn lleol a'u bod yn unol â'r darpariaethau statudol ac egwyddorion y Comisiwn.

Argymhellion Diwygiedig

10. Bydd y Comisiwn yn ystyried adroddiad y Comisiynydd cynorthwyol, y materion a drafodwyd yn yr ymchwiliad lleol ac unrhyw wybodaeth berthnasol arall. Os penderfynant amrywio'r argymhellion dros dro, naill ai o ganlyniad i'r sylwadau a dderbyniwyd ganddynt neu yn sgîl yr ymchwiliad lleol, fe gyhoeddir y cynigion diwygiedig a gwahoddir sylwadau eto o fewn cyfnod arbennig, h.y. yn dilyn yr un drefn ag o'r blaen. Lle y diwygir yr argymhellion dros dro yn sgîl ymchwiliad lleol, bydd adroddiad y Comisiynydd cynorthwyol ar gael i'w archwilio gan bersonau â diddordeb a chan y cyhoedd³.

11. Nid oes raid i'r Comisiwn gynnal ail ymchwiliad lleol ar yr etholaethau dan sylw ond gallant wneud hynny yn ôl eu hewyllys. Mae'r Comisiwn am osgoi cost ymchwiliadau pellach. Gobeithir y bydd yr ymchwiliad cyntaf yn gyflawn ynddo'i hun ac na fydd angen ond yn eithriadol, felly, gynnal ail ymchwiliad er mwyn dysgu'r farn leol ar agweddau na wyntyllwyd mohonynt o'r blaen.

12. Os penderfyna'r Comisiwn addasu'u hargymhellion diwygiedig cyn cyflwyno'u cynigion terfynol i'r Ysgrifennydd Cartref, dilynr yr un drefn eto ynglŷn â chyhoeddi a gwahodd sylwadau.

ARGYMHELLION TERFYNOL

13. Bydd yr adroddiad sy'n cynnwys argymhellion terfynol y Comisiwn yn ymwneud â phob etholaeth yng Nghymru. Ni chyflwynir adroddiadau ar wahân ar gyfer unrhyw sir neu grŵp o etholaethau.

14. Dyletswydd yr Ysgrifennydd Cartref yw gosod adroddiad y Comisiwn gerbron y Senedd. Os bydd yr adroddiad yn argymhell newidiadau i'r etholaethau presennol, mae'n rhaid i'r Ysgrifennydd Cartref osod gerbron hefyd Orchymyn drafft mewn Cyngor i weithredu'r argymhellion gyda neu heb addasiadau. Os gwneir unrhyw addasiadau, mae'n ofynnol i'r Ysgrifennydd Cartref gyflwyno datganiad o'r rhesymau drostynt yr un pryd. Rhaid i'r Gorchymyn drafft gael cymeradwyaeth dau Dŷ'r Senedd ac, ar ôl ei wneud, bydd yr etholaethau newydd yn dod i rym adeg yr etholiad cyffredinol nesaf.

RHEOLAU AILDDOSBARTHU SEDDI

15. Nodir y rheolau ar gyfer ailddosbarthu seddi⁴, fel y'u diwygiwyd gan ddeddfwriaeth olynol, yn yr Atodiad. Fe'i gwnânt yn ofynnol i'r Comisiwn argymhell nid llai na 35 o etholaethau yng Nghymru. Mae'n rhaid i bob etholaeth gynnwys y cyfan neu ran o un sir yn unig, cyn belled ag y bo hynny'n ymarferol, a rhaid i nifer ei hetholwyr fod mor agos â phosibl i'r cyfartaledd⁵. Fodd bynnag, gall y Comisiwn wyro oddi wrth y rheol ynglŷn â pharchu ffiniau sirol er mwyn osgoi anghysonderau eithafol a gallant wyro oddi wrth y ddwy reol dan sylw lle y bo angen oherwydd ystyriaethau daearyddol arbennig⁶.

Yr egwyddorion a ddilynr

16. Nid yw'r rheolau'n pennu bod rhaid i etholaethau gyfateb i ffiniau dosbarthau na dod o'u mewn. Mae nifer yr etholwyr yn y rhan fwyaf o ddsbarthau yng Nghymru naill ai'n rhy uchel neu'n rhy isel iddynt fod yn etholaethau o faint a fyddai'n agos at y cyfartaledd. Mae felly angen rhannu dosbarthau. Mae'n amlwg y byddai'n peri llai o ddryswch i bawb sy'n ymwneud yn lleol ag etholiadau pe bai'r rhaniadau hyn yn dwyn perthynas ag ardaloedd eraill sy'n adnabyddus ac yn ddealedig. Bydd y rhan fwyaf o weinyddiadau pleidiau gwleidyddol lleol yn defnyddio wardiau dosbarth fel sail i'w gweithgarwch, ac mae'r wardiau hyn yn cyfuno ardaloedd lle y mae gan bobl ddiddordebau cyffredin. Byddai rhannu'r wardiau dosbarth hyn yn aflonyddu ar y cysylltiadau lleol ac felly mae'r Comisiwn wedi dod i'r casgliad, lle y bo angen rhannu ardaloedd llywodraeth leol i ffurfio etholaethau, y byddant yn defnyddio ffiniau wardiau at y diben.

17. Cydnebydd y Comisiwn y gall maint, siâp a hygyrchedd etholaethau mewn rhai rhannau o Gymru greu ystyriaethau daearyddol arbennig sy'n haeddu dosbarthiad gwahanol i weddill Prydain.

³ Gellir prynu trawsgrïpt o'r dystiolaeth a roddwyd mewn ymchwiliad lleol trwy wneud cais i swyddfa'r Comisiwn.

⁴ Atodiad 2 i Ddeddf 1949.

⁵ At ddibenion yr arolwg cyffredinol presennol, golyga hyn 58,753 yng Nghymru, h.y. cyfanrif yr etholwyr ym 1981 (2,115,093) wedi'i rannu gan nifer presennol y seddi (36) yng Nghymru (gweler Rheol 7 o dan y Rheolau Ailddosbarthu). Cyfartaledd yr etholwyr (1981) ar gyfer etholaethau yn Lloegr, Yr Alban a Gogledd Iwerddon yw 67,961, 54,725, 87,778 (61,961 ar 17 o seddi).

⁶ Gweler Rheolau 5 a 6 o dan y Rheolau Ailddosbarthu.

18. Disgwylir i'r Comisiwn hefyd roi ystyriaeth, cyn belled ag y gallant yn rhesymol, i'r anghyfleustra a greir trwy newid etholaethau (ar wahân i'r newidiadau hynny a fo'n angenrheidiol er mwyn adlewyrchu ffiniau sirol) ac i unrhyw gysylltiadau lleol a dorrid gan newidiadau o'r fath⁷.

Yn anffodus, fodd bynnag, cododd anghysonderau mawr rhwng niferoedd etholwyr oherwydd nad yw ffiniau etholaethau wedi cadw cam a cham â newidiadau yn y boblogaeth. Mae tair ar ddeg o'r 36 etholaeth wedi aros yn ddigyfnewid ers 1918 ac ymhlith y rhain fe geir y pum etholaeth y mae nifer eu hetholwyr dros 30% yn is na'r cyfartaledd yn ogystal â'r tair y mae nifer eu hetholwyr dros 30% yn uwch na'r cyfartaledd. Mae gan yr etholaeth leiaf, Meirionnydd, lai nag un rhan o dair o etholwyr Trefynwy. Dim ond saith etholaeth a ddiwygiwyd yn sylweddol ers 1948. Mae'n amlwg y bydd yr anghysonderau mawr rhwng nifer yr etholwyr yn yr etholaethau presennol, ar y cyd â'r diwygio a wnaed adeg ad-drefnu llywodraeth leol ym 1974, yn gofyn am newidiadau pwysig mewn llawer o'r seddi presennol. Yn anochel, bydd hyn yn aflonyddu ar hen gysylltiadau traddodiadol mewn rhai ardaloedd ac, er bod y Comisiwn yn sylweddoli'r chwalfa a achosir yn sgîl hynny, byddent yn methu â gwneud eu dyletswydd pe baent yn argymhell etholaethau ar gyfer y dyfodol a fyddai'n cadw'r gynrychiolaeth anghymesur a geir yn y rhai presennol.

19. Nid yw'r ddeddfwriaeth ynglŷn ag aiddosbarthu seddi'n gwneud unrhyw ddarpariaeth ar gyfer cynrychiolaeth fwy ffafriol i ardal oherwydd newidiadau a ragwelir yn nifer yr etholwyr neu oherwydd amgylchiadau sy'n unigryw i etholwyr yr ardal honno.

Enwau a Theitlau Etholaethau

20. Rhaid i argymhellion y Comisiwn gynnwys yr enw y dylid ei roi ar bob etholaeth, gan nodi a ddylai fod yn etholaeth sirol neu'n etholaeth fwrdeistref⁸. Mae'r gwahaniaeth rhwng etholaeth sirol ac etholaeth fwrdeistref yn effeithio ar y treuliau a ganiateir adeg etholiadau. Bydd y Comisiwn fel arfer yn neilltuo fel etholaethau bwrdeistref y rheiny sydd yn bennaf neu'n gyfan gwbl mewn ardaloedd trefol a chaiff y gweddill eu galw'n etholaethau sirol. Mae teitl etholaeth, a'i henw, yn faterion y gellir cyflwyno sylwadau ynglŷn â hwy i'r Comisiwn. Mae'n amhosibl, fodd bynnag, i'r Comisiwn gynnig enwau Cymraeg a Saesneg i'r un etholaeth. Mae'r gyfraith yn nodi'n bendant fod rhaid i'r Comisiwn argymhell un enw yn unig i bob sedd.

CYFFREDINOL

Llunio cynigion

21. Mae'r Comisiwn yn dilyn y drefn draddodiadol ar gyfer arolygu etholaethau, sef cyhoeddi argymhellion dros dro heb ymgynghori'n gyntaf ag awdurdodau lleol a grwpiau eraill. Caiff y cynigion eu llunio gan y Comisiwn, felly, yn unol â'u safle annibynnol, diduedd, heb eu dylanwadu gan unrhyw farn arall. Efallai y byddai i unrhyw ddull arall yr anfanteision y gellid esgeuluso ymgynghori â rhai grwpiau a fyddai wedi hoffi cyflwyno sylwadau, a hefyd y gellid oedi proses yr arolwg yn gyffredinol. Yn wyneb dyletswydd statudol y Comisiwn i gyflwyno'u hadroddiad erbyn Mai 1984, mae'n hanfodol bwysig na ddylai fod unrhyw oedi yn rhaglen y Comisiwn.

Arolygon dros dro

22. Gall y pedwar Comisiwn Ffiniau Seneddol hefyd gynnal arolygon o etholaethau rhwng eu harolygon cyffredinol. Yn y gorffennol, cyfyngid yr arolygon dros dro hyn i addasiadau cymharol fach ar ffiniau etholaethau er mwyn cydymffurfio â ffiniau diwygiedig ardaloedd llywodraeth leol neu â wardiau'r cyn-fwrdeistrefi.

23. Gwnaed penderfyniad Comisiwn Cymru i ddefnyddio wardiau dosbarth fel yr unedau sylfaenol yn ystod yr arolwg cyffredinol hwn, ar ôl ystyriaeth ofalus a chan roi sylw priodol i'r arolygon parhaol o drefniadau etholiadol y dosbarthau. Cynhelir yr arolygon hynny gan Gomisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol i Gymru y mae'n ofynnol iddynt, at y diben hwn, roi ystyriaeth i gymdeithasau neu wardiau cymdeithas wrth gynnig wardiau dosbarth newydd. Yn amlwg, fel y bydd yr arolwg cyffredinol o etholaethau seneddol yn mynd rhagddo, bydd yr Ysgrifennydd Cartref yn gwneud Gorchmynion yn darparu trefniadau etholiadol newydd ar gyfer dosbarthau. Bwriada'r Comisiwn roi ystyriaeth, cyn belled ag y bo'n ymarferol, i'r Gorchmynion hyn yn ôl fel yr effeithiant ar ffiniau etholaethau. Ni fydd yn bosibl gwneud hyn ym mhob achos, fodd bynnag, a gall fod angen yn nes ymlaen, felly, i ystyried cynnal nifer cyfyngedig o arolygon dros dro er mwyn ail-linellu ffiniau etholaethau i gytuno â ffiniau newydd yr awdurdodau lleol.

⁷ Adran 2(2) Deddf 1958.

⁸ Adran 3(1) Deddf 1949.

ATODLEN E

RHESTR Y COMISIYNWYR CYNORTHWYOL A GYNHALIODD YMCHWILIADAU LLEOL

Comisiynydd Cynorthwyol

G. H. M. Daniel, Bargyfreithiwr
G. O. Edwards, Bargyfreithiwr
A. J. Lees, Bargyfreithiwr
D. G. Morgan, Bargyfreithiwr

M. T. Pill, Cwnsler y Frenhines
E. J. Prosser, Cwnsler y Frenhines
D. W. Richards, Bargyfreithiwr

Sir

Gwynedd
Clwyd
Gorllewin Morgannwg
{ Gwent
Powys
Morgannwg Ganol
De Morgannwg
Dyfed

APPENDIX F ATODLEN F

LIST OF COUNTIES—THEIR ELECTORATES, THEORETICAL ENTITLEMENTS AND NUMBER OF SEATS
ALLOCATED—WITH THE ELECTORATES OF THE DISTRICTS

RHESTR O SIROEDD—NIFEROEDD EU HETHOLWYR, EU HAWL DDAMCANIAETHOL O RAN CYNRYCHIOLWYR A
NIFER Y SEDDI A NEILLTUWYD IDDYNT—YNGHYD Â NIFER YR ETHOLWYR YMHOB DOSBARTH

N.B. Several district and county electorates have been affected by Areas Orders and Communities Orders made after the 1981 electoral register was published. In these cases the electorates shown below have been adjusted from information given by Electoral Registration Officers to show the local authority areas as presently constituted.

D.S. Effeithiwyd ar niferoedd yr etholwyr mewn amryw o ddsbarthau a siroedd gan Orchmynion Ardaloedd a Gorchmynion Cymdeithasau a wnaed ar ôl cyhoeddi rhestr etholwyr 1981. Yn yr achosion hyn, fe ddiwygiwyd niferoedd yr etholwyr a nodir isod ar sail gwybodaeth a ddarparwyd gan Swyddogion Cofrestru Etholiadol er mwyn dangos ardaloedd yr awdurdodau lleol fel y'u cyfansoddir ar hyn o bryd.

County and District Sir a Dosbarth	1981 Parliamentary Electorate Etholwyr Seneddol 1981	Number of Existing Seats Nifer y Seddi Presennol	Theoretical Entitlement 1981 (EQ 58,753) Hawl Ddamcan- iaethol 1981 (CE 58,753)	Number of Seats Allocated Nifer y Seddi a Neill- tuwyd
CLWYD	295,956	3 + parts of 2	5.04	5
Alyn and Deeside	53,056			
Colwyn	38,838			
Delyn	48,491			
Glyndŵr	30,362			
Rhuddlan	41,257			
Wrexham Maelor	83,952			
DYFED	255,049	4	4.34	4
Carmarthen	40,032			
Ceredigion	47,542			
Dinefwr	29,024			
Llanelli	59,333			
Preseli	50,662			
South Pembrokeshire	28,456			
GWENT	327,891	3 + parts of 4	5.58	6
Blaenau Gwent	59,871			
Islwyn	50,372			
Monmouth	53,296			
Newport	97,049			
Torfaen	67,303			
GWYNEDD	175,611	3 + parts of 2	2.99	4
Aberconwy	40,111			
Arfon	40,258			
Dwyfor	20,960			
Meirionnydd	24,489			
Ynys Môn—Isle of Anglesey	49,793			
MID GLAMORGAN	403,500	3 + parts of 9	6.87	7
Cynon Valley	51,053			
Merthyr Tydfil	45,928			
Ogwr	96,347			
Rhondda	63,290			
Rhymney Valley	77,453			
Taff-Ely	69,429			

County and District Sir a Dosbarth	1981 Parliamentary Electorate Etholwyr Seneddol 1981	Number of Existing Seats Nifer y Seddi Presennol	Theoretical Entitlement 1981 (EQ 58,753) Hawl Ddamcan- iaethol 1981 (CE 58,753)	Number of Seats Allocated Nifer y Seddi a Neill- tuwyd
POWYS	84,221	1 + part of 1	1.43	2
Brecknock	30,206			
Montgomery	37,421			
Radnor	16,594			
SOUTH GLAMORGAN	290,441	4 + parts of 5	4.94	5
Cardiff	210,205			
Vale of Glamorgan	80,236			
WEST GLAMORGAN	282,424	3 + parts of 2	4.81	5
Afan	42,289			
Lliw Valley	45,918			
Neath	52,007			
Swansea	142,210			

APPENDIX G
ATODLEN G

LIST OF RECOMMENDED CONSTITUENCIES IN 1981 ELECTORATE SIZE ORDER
RHESTR YR ETHOLAETHAU A ARGYMHELLWYD YNG NGORCHYMYN 1981 MEWN CYSYLLTIAD Â NIFEROEDD
ETHOLWYR

<i>Constituency</i> <i>Etholaeth</i>	<i>Electorate</i> <i>Etholwyr</i>	
		EQ + 15% (67,566)
Pembroke CC	66,998	
Llanelli CC	64,776	
Carmarthen CC	63,613	
Caerphilly CC	63,400	
Rhondda CC	63,290	
Delyn CC	61,992	
Vale of Glamorgan CC	61,813	
Clwyd North West CC	61,618	
Pontypridd CC	60,671	
Cardiff South and Penarth BC	60,621	
Wrexham CC	60,200	
Merthyr Tydfil and Rhymney CC	59,981	
Ceredigion and Pembroke North CC	59,662	
14 Cardiff West BC	58,857	
	58,753	ELECTORAL QUOTA CWOTA ETHOLIADOL
Swansea West BC	58,700	
Torfaen CC	58,630	
Swansea East BC	57,807	
Blaenau Gwent CC	56,952	
Alyn and Deeside CC	56,443	
Gower CC	56,110	
Monmouth CC	55,943	
Clwyd South West CC	55,703	
Cardiff Central BC	55,683	
Neath CC	55,678	
Aberavon CC	54,129	
Newport West CC	53,640	
Cardiff North BC	53,467	
Bridgend CC	53,154	
Newport East CC	52,354	
Ogmore CC	51,951	
Conwy CC	51,482	
Cynon Valley CC	51,053	
Islwyn CC	50,372	
		EQ - 15% (49,940)
Ynys Môn CC	49,793	
Brecon and Radnor CC	46,800	
Caernarfon CC	43,893	
Montgomery CC	37,421	
